This document is available in English

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal
DDYDD LLUN 15 MEDI 2025 am **14:00 o'r gloch**
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Fuddiannau**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025**

5. **Materion yn Codi**

6. **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, er gwybodaeth**

7. **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024-25 i'w gymeradwyo**

8. **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch1 2025-26 i'w gymeradwyo**

9. **Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth i'w gymeradwyo a chymeradwyo cyhoeddi**

10. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Dim

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
PANEL GWEITHREDOL

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mehefin 2025, yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd)	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Carol Beard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. Chris Hughes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. John Ifan Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Paul Rogers	Cyngor Sir Wrecsam
Y Cyng. Gareth Sandilands	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Dale Selvester	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Antony Wren	Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx	Prif Swyddog Tân
Helen MacArthur	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Justin Evans	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Anthony Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Mike Plant	Rheolwr Ardal - Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid
Llinos Evans	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Dafydd Edwards	Trysorydd
Gareth Owens	Clerc a Swyddog Monitro
Dan Stephens	Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru
Marian Lloyd Rees	Atebol - Cyfieithydd
Lisa Allington	Cynorthwyydd Gweithredol

1.0 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Alan Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Rondo Roberts	Cyngor Sir Wrecsam

YN ABSENNOL

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Gareth A Roberts	Cyngor Gwynedd

2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Cyflwynodd PST Docx hysbysiad i drafod penodi i swyddi Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a fyddai'n eitem Rhan II.

4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 PENDERFYNWYD:

i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

5.0 MATERION YN CODI

5.1 Gofynnwyd am adborth mewn perthynas â pharagraff 6.8, eitem 3, lle roedd yr Aelodau wedi datgan y byddent yn ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol.

5.2 Cadarnhaodd PST Docx fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn gweithio'n agos gyda LlC ar wella diwylliannol, a bod LlC wedi ariannu hyfforddiant Cwynion Cyflogaeth a Disgyblaeth a ddarparwyd yn ddiweddar i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, Adnoddau Dynol (AD) ac Arweinwyr Canol. Roedd y sesiwn wedi arwain at gadarnhad bod y polisïau yr oedd y Gwasanaeth wedi bod yn eu defnyddio yn bodloni'r holl safonau arfer gorau, ac roedd hynny'n beth cadarnhaol iawn. Roedd wedi bod yn sesiwn ddefnyddiol iawn ac roedd pawb a fu'n rhan ohoni wedi elwa yn ei sgil. Parhaodd y Gwasanaeth i weithio gyda LlC mewn perthynas â chymorth ychwanegol.

6.0 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL O WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

6.1 Dywedodd y PST, yn ychwanegol at y Cynllun Gwella Strategol, bod y Bwrdd Gwella Diwylliannol eisoes wedi dechrau, ac roedd ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'r Cynghorydd Sharon Doleman fel yr Aelod sy'n Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Roedd LlC yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i recriwtio person allanol i eistedd ar y Bwrdd Diwylliannol er mwyn rhoi her annibynnol.

6.2 Cyflwynodd RhA Mike Plant y diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol o'r Gwasanaeth a chadarnhaodd y camau nesaf ar daith ddiwylliannol y Gwasanaeth.

6.3 Tynnodd un Aelod sylw at heriau creu ymddiriedaeth o fewn y Gwasanaeth, a gofynnodd a fyddai unrhyw ddarparwyr allanol yn rhan o'r daith wella hon, ac a oedd unrhyw achrediadau y gellid eu cael o ganlyniad. Cadarnhaodd y PST fod rhywfaint o waith gyda darparwyr allanol wedi digwydd yn y gorffennol a bod trafodaethau ar waith i berson annibynnol eistedd ar y Bwrdd Diwylliannol. Roedd yr Undebau hefyd yn rhan o bob agwedd bosibl ar y daith ddiwylliannol hon.

6.4 PENDERFYNWYD:

i) Nodi'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, a
ii) chymeradwyo'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.

7.0 PRIF GYNGHORYDD AC AROLYGYDD TÂN AC ACHUB CYMRU - ADRODDIAD AROLYGIAD

7.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones i'r Aelodau Adroddiad Arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW) dan y teitl 'Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig'.

7.2 Nodwyd bod y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, Dan Stephens, eisoes wedi cwblhau arolygiadau thematig o effeithiolrwydd gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2024, gan gyhoeddi adroddiadau'r arolygiadau ym mis Hydref 2024 a mis Ionawr 2025.

7.3 Croesawyd Dan Stephens i'r cyfarfod a thynnodd sylw'r Aelodau at y ffaith fod adroddiad yr arolygiad yn helaeth a bod rhannau ohono'n eithaf technegol. Felly, roedd y materion o bwys wedi'u cofnodi yn y crynodeb gweithredol. Pwrpas yr arolygiad oedd canfod pa mor effeithiol oedd y Gwasanaeth yn ei ymateb i danau mewn anheddau domestig ac roedd y math hwn o ddigwyddiad wedi'i ddewis gan mai dyma'r digwyddiadau mwyaf niferus sy'n peri risg i fywyd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt a dyma'r rhai sy'n peri'r risg fwyaf i ddiffoddwyr tân, preswylwyr sy'n gaeth a'u cartrefi.

7.4 Cafodd yr Aelodau eu briffio am y fethodoleg y tu ôl i'r adroddiad, a nodwyd bod y canfyddiadau yn debyg yn fras i rai De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

7.5 Cynghorodd Mr Stephens, pe bai dyfarniad o berfformiad wedi'i wneud ar sail graddau, gan ddefnyddio'r graddau HMICFRS a ddefnyddir yn Lloegr, er nad oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn union yr un fath, y byddai perfformiad y tri GTA wedi cael ei asesu fel un annigonol. Y rheswm sylfaenol am hyn oedd bod llawer o'r hyfforddiant diffodd tân strwythurol a ddarperir gan y Gwasanaeth yn adlewyrchu tactegau a gyflwynwyd yn rhannol ar ddiwedd y 1990au, â sawl un ohonynt heb gael eu profi'n wyddonol ar y pryd na'u dylunio ar gyfer eu defnyddio yn y DU.

7.6 Roedd y sefyllfa hon wedi cael ei gwaethygu yng Ngogledd Cymru yn sgil cael gwared ar hen Orchmynion Polisi a Gweithdrefn Gweithredol y Gwasanaeth a chyflwyno Coflyfr (Aide Memoirs) yn eu lle, cyn cyflwyno'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yn llawn. Roedd hyn wedi'i wneud am y rhesymau cywir, ond roedd y Gwasanaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran adnoddau, yn enwedig gyda rolau Goruchwylio a Rheolwyr Canol mewn meysydd swyddogaethol, gan ei gwneud hi'n anodd iawn i ymdopi â gofynion materion sy'n gritigol o ran risg, megis cyflwyno'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.

7.7 Nododd Mr Stephens y byddai angen cynnydd sylweddol a pharhaus mewn hyfforddiant ar gyfer diffoddwyr tân, ond na allai hyn fod ar draul gweithgareddau lleihau risg fel ymweliadau diogelwch yn y cartref. Roedd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi ei bryderon yn hynny o beth.

7.8 Wrth gloi, pwysleisiodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd nad bwriad yr arsylwadau a wnaed yn ei adroddiad oedd beirniadu diffoddwyr tân, Swyddogion na hyfforddwyr y Gwasanaeth, ac ni ddylid eu hystyried yn feirniadaeth. Roedd y lefelau ymgysylltu â'r holl staff trwy gydol yr arolygiad wedi bod yn ardderchog ac roedd pawb a fu'n rhan o'r arolygiad wedi bod yn barod iawn i fabwysiadu tactegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwelliannau i'r broses sicrwydd gweithredol.

7.9 Gofynnodd un Aelod a oedd y Gwasanaeth yn hyderus y gellid bodloni'r argymhellion o fewn yr amserlen a bennwyd, ac atebodd PSTC Jones fod gwaith yn y maes hwn eisoes wedi dechrau; fodd bynnag, roedd argaeledd adnoddau yn her sylweddol ac yn peri pryder gwirioneddol.

7.10 Bu un Aelod yn pendroni tybed a oedd preifateiddio Coleg y Gwasanaeth Tân wedi cyfrannu at y materion a amlygwyd, ac atebodd Mr Stephens trwy ddweud, er nad oedd hynny wedi helpu, bod gan y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, yn y pen draw, y gallu i gydweithio a datblygu polisïau a hyfforddiant. Roedd yn hanfodol bod y cyfleusterau hyfforddi cywir ar gael i wneud hyn a dylid bwrw ymlaen â hyn fel blaenoriaeth, a chanmolodd Mr Stephens PST Docx am ei hymrwymiad i ddarparu cyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf i Ogledd Cymru. Anogodd yr Aelodau i gefnogi'r PST yn llawn yn ei huchelgais i ddarparu'r cyfleusterau hyfforddiant diffodd tân strwythurol mwyaf effeithiol yn y DU.

7.11 Gofynnwyd a oedd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn hapus gyda'r amserlen ar gyfer datblygu'r ganolfan hyfforddi, ac a fyddai ef ei hun yn gallu bod yn rhan o'r gwaith o'i datblygu. Ymatebodd Mr Stephens, o ran y camau gweithredu cyflym, fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rheini, megis datblygu polisi, a oedd yn angenrheidiol ac yn gadarnhaol. Roedd cymorth wedi cael ei ddarparu yn hynny o beth a byddai'n parhau i gael ei ddarparu. Roedd yn cydnabod bod unrhyw brosiect cyfalaf angen buddsoddiad sylweddol o ran amser, adnoddau ac arian ac na allai ddigwydd yn gyflym, er nad oedd ganddo unrhyw amheuaeth y byddai'r Ganolfan Hyfforddi yn cael ei darparu. Byddai unrhyw gymorth ariannol ar ffurf cyfalaf y gallai LlC ei roi i'r Awdurdod – ac roedd achos cryf iawn dros gael y ganolfan hyfforddi honno ar gyfer yr Awdurdod – yn cael ei gefnogi'n llawn gan y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.

7.12 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd wedi deall yn iawn mai ym maes rheolwyr canol y mae'r adnoddau y mae ar y Gwasanaeth eu hangen, a chadarnhaodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd fod hynny'n wir. Roedd nifer y rolau Rheolwr Gorsaf a Rheolwr Grŵp yn y Gwasanaeth yn cael ei lywio gan yr isafswm niferoedd sy'n angenrheidiol i lenwi'r rota i gwmpasu'r ddarpariaeth weithredol. Nid oedd hyn yr un fath â'r niferoedd sy'n ofynnol i gyflawni llwyth gwaith y sefydliad. Er bod pennu adnoddau y tu hwnt i gwmpas yr arolygiad, roedd yr adnoddau rheoli cyfyngedig a oedd ar gael i'r PST yn ddi-os yn her. Wedi dweud hynny, roedd yn amlwg bod terfyn ar faint o gyllid y gellid ei godi ar ffurf ardoll yr awdurdodau lleol.

7.13 Diolchodd y PST i Mr Stephens am ei waith manwl yn y maes hwn. Roedd y ffaith ei fod wedi cynnal adolygiad annibynnol wedi bod yn hynod o ddefnyddiol ac roedd yn ddatganiad clir, er bod y gwaith caled a'r parodrwydd i gyflawni o fewn y Gwasanaeth heb eu hail, bod yr hyn yr oedd yn bosibl ei gyflawni o fewn yr amserlen a ddarparwyd yn her.

7.14 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a
ii) nodi bod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.

8.0 MONITRO PERFFORMIAD, EBRILL 2024 – MAWRTH 2025

8.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Cynghorwyd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn darparu data cymharol yn ymwneud ag 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

8.2 Tynnwyd sylw at y manylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch a larymau tân awtomatig.

8.3 Roedd yr aelodau'n teimlo bod y gwaith atal sy'n cael ei wneud yn gadarnhaol yn gyffredinol; fodd bynnag, nododd y Cadeirydd fod y Prif Gynghorydd ac Arolygydd wedi tynnu sylw'n ddiweddar at broblem yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf lle bu ôl-groniad o 7000 o ymweliadau diogelwch yn y cartref. Roedd un o'r bobl hynny a oedd yn aros am ymweliad wedi marw mewn tân yn ddiweddarach. Nododd fod yr Adroddiad Monitro Perfformiad yn datgan bod y gyfradd cwblhau ar gyfer archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth wedi gostwng oherwydd cyfuniad o ffactorau gweithredol a strategol. Gofynnodd beth oedd y ganran ar gyfer cynnal archwiliadau diogel ac iach o fewn y targed ar gyfer y Gwasanaeth.

8.4 Ymatebodd PSTC Jones i ddweud bod llawer o bobl agored i niwed yn cael eu cyfeirio gan asiantaethau partner ac yna bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn seiliedig ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf. Gwelodd y Gwasanaeth gynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau gan asiantaethau yn 2024 gan arwain at ôl-groniad o atgyfeiriadau uchel eu blaenoriaeth a oedd yn peri risg i'r unigolyn dan sylw a'r Gwasanaeth. Cymerwyd camau i ymdrin â'r ôl-groniad hwn, ac i wella ansawdd a phriodoldeb atgyfeiriadau, ac roedd hynny yn ei dro wedi meithrin perthynas gryfach ag asiantaethau partner.

8.5 Cadarnhaodd PSTC Jones nad oedd yr union ddata o ran canrannau wrth law; fodd bynnag, roedd dangosfwrdd perfformiad wedi'i ddatblygu i flaenoriaethu archwiliadau diogel ac iach ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, ac roedd yr angen i wella amseroedd ymateb i gynnal archwiliadau ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn flaenoriaeth ar gyfer 2025-26 mewn perthynas â gweithgareddau atal.

8.6 Gofynnodd y Cadeirydd i ddata canrannol mis wrth fis gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol fel y gallai'r Aelodau fonitro'r agwedd hon yn fanylach.

8.7 Gofynnodd Aelod a oedd mesurau ataliol mewn perthynas â gweithgarwch addysgol wedi'u targedu o amgylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, a sut roedd y data yn yr adroddiad yn cymharu ledled y DU. Ymatebodd PSTC Jones, mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl ifanc, fod rhaglen ddwys o ymweliadau ysgol wedi'u targedu yn cael ei chynnal ochr yn ochr â chyflwyno rhaglenni Ffenics, wedi'u targedu i weithio ar y cyd ag ysgolion i helpu rhai o'r bobl ifanc mwy heriol. Roedd sesiynau Firesafe yn cael eu cyflwyno hefyd trwy Pentre Peryglon ac fe'u cynlluniwyd yn benodol i weithio gyda phobl ifanc a oedd yn arddangos arwyddion cynnar o weithgareddau cynnau tân.

8.8 Diolchwyd i'r PST, PSTC Jones a chynrychiolwyr eraill o'r Gwasanaeth am eu presenoldeb yn nigwyddiad Pride Prestatyn a gynhaliwyd y penwythnos diwethaf.

8.9 Canmolodd Aelod waith cwrs Ffenics ac roeddent yn teimlo y dylid eu canmol am y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun cadetiaid. Ymatebodd PSTC Jones trwy ddweud bod y rhaglenni cadetiaid yn rhan werthfawr o brofiad pobl ifanc ac roedd sawl achlysur wedi bod pan oedd y bobl ifanc hyn wedi mynd ymlaen i weithio i'r gwasanaeth tân. Fodd bynnag, roedd y cyrsiau cadetiaid yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ac felly roedd heriau o ran dod o hyd i bobl a oedd yn gallu ymrwymo i'r amser sydd ei angen i redeg cwrs cadetiaid.

8.10 Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod niferoedd argaeledd y System Dyletswydd Ar Alwad yn ymddangos fel petaent wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y dydd. Fodd bynnag, roedd yna'n dal i fod un orsaf System Dyletswydd Ar Alwad nad oedd wedi bod ar gael ers dros 12 mis, a gofynnwyd beth y gellid ei wneud i ddatrys hyn. Ymatebodd PSTC Jones fod y tîm ymateb wedi ad-drefnu eu strwythur i helpu i ganolbwyntio ar yr agweddau hynny oedd fwyaf heriol, a bod hynny wedi arwain at gynnydd graddol mewn argaeledd yn ystod yr wythnos. Yr hyn a oedd yn heriol oedd ei bod hi'n cymryd blwyddyn neu ddwy i lenwi swydd diffoddwr tân sy'n gadael gyda rhywun wedi'i hyfforddi i lefel debyg o ran sgiliau a chymhwysedd. Roedd hon yn broblem genedlaethol ar gyfer gwasanaethau ar alwad, ac roedd recriwtio a chadw yn her gyson, â gwaith yn digwydd ar hyn yn barhaus.

8.11 Nododd y Trysorydd y cynnydd mewn digwyddiadau galwadau diangen gan ofyn a oedd cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn ymhellach. Nododd hefyd fod tanau gwyllt ar eu lefel uchaf. Ymatebodd PSTC Jones fod cynnydd yn aml mewn tanau gwyllt pan oedd y tywydd wedi bod yn arbennig o sych yn ystod y tymor llosgi dan reolaeth. Fodd bynnag, roedd gallu'r Gwasanaeth i ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Mewn perthynas â galwadau diangen, roedd y Gwasanaeth yn gweld y cynnydd mwyaf mewn perthynas ag anheddau domestig ac roedd gweithio mewn partneriaeth yn cael ei dargedu i liniaru'r her roedd hyn wedi'i chreu o ran ymateb.

8.12 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad; a

ii) Gofyn i ddata gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol ar faint o archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth sy'n cael eu cwblhau o fewn y targed 28 diwrnod.

9.0 RHEOLI RISG STRATEGOL

9.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y papur Rheoli Risg Strategol a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a throsolwg o Gofrestr Risg Strategol yr Awdurdod.

9.2 Gofynnwyd a oedd angen cynnwys y risgiau a amlygwyd yn adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn y Gofrestr Risg, ac atebodd PSTC Jones i ddweud eu bod eisoes wedi'u cynnwys yn y Cofrestrau Risg Adrannol yn hytrach na bod yn risgiau strategol.

9.3 PENDERFYNWYD:

i) nodi'r Gofrestr Risg Strategol.

10.0 MATERION BRYS – RHAN II

10.1 Yn unol â'r hysbysiad ar ddechrau'r cyfarfod, cyflwynwyd eitem Rhan II i'w thrafod gan y PST mewn perthynas â recriwtio dwy swydd PSTC i'r Gwasanaeth.

10.2 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Gwasanaeth wedi hysbysebu dwy swydd PSTC yn ddiweddar, yn lleol ac yn genedlaethol, a bod nifer o geisiadau wedi'u derbyn yn fewnol ac yn allanol, a oedd yn destun balchder gan ei fod yn golygu bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn lle deniadol i weithio. Roedd cyfweliadau rhestr hir yn cael eu cynnal ar 17 Mehefin 2025, gyda chyfweliadau rhestr fer i'w cynnal ar 27 Mehefin 2025.

10.3 Dywedodd y PST fod angen aelodau panel ar gyfer y cyfweliadau rhestr fer a bod yn rhaid i'r rhain fod yn Aelodau o'r Panel Gweithredol. Roedd cynrychiolwyr o Ynys Môn, Sir y Fflint a Chonwy eisoes wedi'u canfod, ond roedd angen cynrychiolwyr o Wrecsam, Gwynedd a Sir Ddinbych o hyd. Os oedd unrhyw Aelodau o'r awdurdodau lleol hyn ar gael ar 27 Mehefin 2025, ac yn gallu mynd i'r Pencadlys, gofynnwyd iddynt roi gwybod i'r Gwasanaethau Aelodau cyn gynted â phosibl. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd y penodiadau hyn i'r Gwasanaeth a bod angen gwneud y dewisiadau cywir.

10.4 Gofynnodd un Aelod a oedd proses ar waith ar gyfer gwirio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ymgeiswyr, ac atebodd y PST i ddweud, er bod geirdaon wastad yn cael eu gwirio, nad oedd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu gwirio yn y gorffennol. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod y rhain yn swyddi uchel eu proffil a bod angen i bobl gael hyder yn eu harweinwyr felly byddai cyfreithlondeb edrych ar y cyfrifon ar yr achlysur hwn yn cael ei archwilio.

10.5 Gofynnodd un Aelod pa mor fawr fyddai rhan yr Undebau yn y broses, ac atebodd y PST fod yr asesiad cyfryngau a'r profion seicometrig ar waith ac y byddai hi'n gweithio ar bennu sut y gellid cynrychioli barn gweithwyr.

Daeth y cyfarfod i ben: 15:35 o'r gloch

This document is available in English

Eitem Agenda 6

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**
Swyddog Cyswllt	**Dawn Docx**
Pwnc	**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gyhoeddi ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol.

ARGYMHELLION

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnwys yr ymgynghoriad; ac yn

ii) Cytuno i fynd i weithdy i graffu ar y cynigion a chyflwyno ymateb wedi'i ddrafftio ar ran yr Awdurdod, yn nodi barn yr Aelodau ynglŷn â'r cynigion.

CEFNDIR

3 Cafodd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru eu sefydlu drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cyfuno yn 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

4 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) bapur gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru". Bydd rhai Aelodau'n cofio, ar ôl cyfnod o ymgynghori, mai'r penderfyniad oedd bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch cyllid yn unig, ond ni ddaeth y rhain i fod ychwaith oherwydd y pandemig yn 2020.

5 Yn 2024 ymyrrodd Llywodraeth Cymru yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) a chyflwyno Comisiynwyr i ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn yr un flwyddyn, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mewn ymateb i'r ddau ddigwyddiad hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer newid ac yn ddiweddar maent wedi cyhoeddi cynigion newydd ynghylch llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

GWYBODAETH

6 Y bwriad oedd cynnal yr ymgynghoriad 12 wythnos dros yr haf, ond gan fod oedi wedi bod o ran y dyddiad cyhoeddi bydd y cyfnod hwn bellach yn ymestyn i'r hydref.

7 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ymgysylltu â'r Cadeiryddion, y Prif Swyddogion Tân a'r Undebau Llafur drwy gyfrwng y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, lle cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau am y cynigion, fel y gellid disgwyl. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet atgoffa'r aelodau fod y cynigion yn y papur yn cwmpasu newidiadau y gellid eu cyflwyno'n awr, yn ystod y tymor hwn yn y Senedd, yn hytrach nag opsiynau a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol yn nhymor nesaf y Senedd.

8 Mae'r cynigion wedi'u hamlinellu o amgylch tair thema:

a) Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub neu Fyrddau.
b) Cyllid
c) Arolygu Gwasanaethau Tân ac Achub

9 Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 29 Awst 2025, ac fe'i rhannwyd â'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru - Diwygio awdurdodau tân ac achub yng Nghymru 2025 | LLYW.CYMRU

10 Cynigir y dylid cynnal gweithdy gyda'r Aelodau i ganfod eu safbwyntiau ac i lunio eu hymateb i'r ymgynghoriad.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion sy'n ceisio gwella trefniadau llywodraethiant o amgylch Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.
Cyllideb	Gall y mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub achosi gostyngiad mewn cyllid.
Cyfreithiol	Gellir gweithredu'r cynigion hyn o fewn y gorchmynion cyfuno presennol ac nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer.
Staffio	Gallai unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb fod â goblygiadau staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Gallai lleihau nifer yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol leihau'r craffu lleol ar Wasanaethau Tân ac Achub.

This document is available in English

Eitem Agenda 7

Adroddiad i	**Y Panel Gweithredol**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid**
Pwnc	**Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/25**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 i Aelodau'r Panel Gweithredol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyhoeddi asesiad o'i berfformiad o dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dylid cynnal yr asesiad yn flynyddol a'i gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Yn ogystal, mae Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gofyn am adroddiad blynyddol sy'n dangos cynnydd yr Awdurdod o ran ei amcanion llesiant.

3 Cymeradwywyd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 24/25 eu cymeradwyo ar 15 Gorffennaf 2024, ac maent yn canolbwyntio ar y pum egwyddor allweddol sef atal, amddiffyn, ymateb, pobl a'r amgylchedd.

4 Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn nodi amcanion yr Awdurdod ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys sut y bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

5 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, gan roi trosolwg o'r gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn lawn a chadarnhau cynnydd yn erbyn amcanion datganedig yr Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi a chymeradwyo cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2024/25 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod.

CEFNDIR

7 Cymeradwyodd yr Awdurdod ei CRhRC 2024-2029 yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2004. Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2024/25 yn nodi'r gwelliannau a'r amcanion arfaethedig y cynhelir yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar eu sail.

8 Er nad yw'r rheoliadau'n rhagnodi ffurf a chynnwys yr asesiad perfformiad, mae'r dull canlynol wedi'i fabwysiadu am resymau cysondeb adrodd ac atebolrwydd:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r Awdurdod wedi'u dilyn i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella fel y'i mynegir yn ei gynllun gwella;
- Crynodeb o asesiad yr Awdurdod o'i gyflawniad yn erbyn yr amcanion gwella;
- Datganiad o berfformiad fel y'i mesurir gan yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol;
- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau cymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;
- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;
- Manylion am y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys manylion ynghylch a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac
- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod o ganlyniad i unrhyw adroddiadau a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

GWYBODAETH

9 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau, gan gynnwys 44 o orsafoedd gweithredol, 54 o beiriannau tân a 949 o bersonél.

10 Yn ystod 2024/25 derbyniwyd cyfanswm o 14,535 o alwadau brys gan arwain at fynd i 6,489 o ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys 1,804 o danau, 3,264 o alwadau diangen a 1,421 o argyfyngau nad oeddent yn danau, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd. Yn ogystal, cynhaliodd y Gwasanaeth 20,021 o archwiliadau diogel ac iach mewn cartrefi ledled Gogledd Cymru yn rhan o'n hymrwymiad i gadw'r cymunedau'n ddiogel.

11 Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad cynnydd yn erbyn pob un o'r pum egwyddor a nodir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

12 Mae'r Awdurdod wedi llofnodi'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwella diogelwch yn y cartref er mwyn lleihau nifer ac effaith tanau mewn anheddau domestig. Pan geir tanau, mae'r siarter yn hyrwyddo ymateb effeithiol a phroffesiynol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
Cyllideb	Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn sail i'r broses o bennu cyllideb ac yn cyd-fynd â chynlluniau adrannol.
Cyfreithiol	Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
Staffio	Nod ein Hegwyddor Pobl yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gweithlu hynod o fedrus, amrywiol a chynhwysol.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
Risgiau	Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn amlinellu pwy rydym yn eu cefnogi ac yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau.



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024-25

Cyhoeddwyd Hydref 2025

This publication is available in English

Cynnwys

Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd 4

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 4

Gogledd Cymru 4

Adnoddau a Gweithgaredd 5

Staffio 5

Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân 6

Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant 7

Ein Hegwyddor Pobl 8

Ein Hegwyddor Atal 18

Ein Hegwyddor Diogelu 23

Ein Hegwyddor Ymateb 26

Ein Hegwyddor Amgylchedd 30

Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad 32

Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2024-25 34

Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni 40

Gwybodaeth Arall 40

Ymgynghoriadau 41

Geirfa a Diffiniadau 42

Dweud eich dweud 44

Croeso i'r adolygiad blynyddol cyntaf o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 5 mlynedd

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu ein cynnydd yn ystod 2024-25, y flwyddyn gyntaf o gyflawni ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) pum mlynedd newydd 2024-29. Mae'n garreg filltir bwysig wrth i ni barhau â'n taith tuag at wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, tra'n sicrhau bod ein Gwasanaeth yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o gynnydd a newid. Ochr yn ochr â gofynion gweithredol cynyddol a'r heriau a achosir gan danau gwyllt, digwyddiadau tywydd garw, a moderneiddio ein seilwaith, rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar adeiladu gweithlu cynhwysol, cefnogol ac ymgysylltiedig. Trwy fforymau a mentrau newydd, rydym yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff rannu eu barn, siapio ein diwylliant, a sicrhau bod ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn.

Yn ystod 2024-25, gwnaethom gwblhau 20,021 o Archwiliadau Diogel ac Iach – gan fynd uwchlaw ein targed a helpu i amddiffyn yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymunedau. Gan weithio'n agos gyda'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, rydym wedi cryfhau ein gallu i nodi'r rhai sydd mewn perygl mwyaf a darparu cymorth atal a diogelwch wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd pwysig wrth lunio ein dyfodol. Mae'r Prosiect Canolfan Hyfforddi a Datblygu yn parhau i symud ymlaen, gyda thir wedi'i sicrhau a'r gwaith adeiladu wedi'i gynllunio i'w gwblhau yn 2029. Ar yr un pryd, mae ein Cynllun Datgarboneiddio Fflyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, gan gyflwyno Olew Llysiau Hydrotreated (HVO) i leihau allyriadau ar draws ein gweithrediadau.

Eleni, fe wnaethom ymateb i 6,489 o ddigwyddiadau, gan gynnwys 1,804 o danau, ac, yn anffodus, cofnodwyd tri marwolaeth sy'n gysylltiedig â thân. Mae'r ffigurau hyn yn ein hatgoffa pam mae ein gwaith - ar draws atal, amddiffyn, ac ymateb brys - yn parhau i fod mor hanfodol.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein hadroddiadau. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen olaf yr adroddiad hwn.

North Wales Fire and Rescue Authority



Prif Swyddog Tân



Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd

Mae'r Awdurdod o'r farn bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ym mhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd i'w gweld yma.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae 28 aelod etholedig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, yn cynnwys llawer o wahanol adrannau sydd i gyd yn cyfrannu at redeg y gwasanaeth tân. Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar gael yma.



Gogledd Cymru

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ardal y mae'r Gwasanaeth yn helpu i'w diogelu yma.



Adnoddau a Gweithgaredd

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2024-25.

Gorsafoedd Tân	Injans Tân Llinell Blaen	Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwy	Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2025)
			
44	53	14,535	949 (nifer)
Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt	**Tanau**	**Galwadau Diangen**	**Argyfyngau nad oeddent yn Dân**
			
6,489	1,804	3,264	1,421

Gall data digwyddiadau fod yn destun mân newidiadau.

Staffio

Ar 31 Mawrth 2025	Cryfder cyfwerth ag amser llawn	Cyfrif pennau staff unigol
Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn)	283.00	283
Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Ar- alwad/ Rhan amser)	364.80	487
Gwasanaethau Corfforaethol	144.08	148
Ystafell Reoli	30.75	31
Cyfansymiau	**822.63**	**949**

Nodwch fod y ffigur o 949 a ddyfynnir uchod yn cyfateb i 887 o bobl. Mae hyn oherwydd unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth mewn mwy nag un rôl neu swydd. Er enghraifft, gallai gweithredwr rheoli hefyd weithio fel diffoddwr tân ar alwad.

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio fel diffoddwyr tân ar-alwad.

Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

Atal Tân	drefnu bod diogelwch tân yn cael ei hyrwyddo yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys addysgu pobl ynghylch atal tân a'u cynghori pa ymateb sydd orau os bydd tân yn digwydd.
Gorfodi Diogelwch Tân	bod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i orfodi newidiadau, gorfodi a hyd yn oed roi hysbysiadau gwahardd os ydynt yn canfod bod trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol mewn safleoedd.
Ymateb Brys	gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon personél hyfforddedig â'r offer priodol i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo yn y tanau hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol.
Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill	gwneud trefniadau ar gyfer dadheintio pobl ar lefel dorfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi cwympo. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau ar raddfa fawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae gan awdurdodau tân ac achub ddyletswyddau hefyd yn ymwneud â dyletswyddau digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a phrif gadwyni cyflenwi.
Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol	gwneud trefniadau i ymateb i achosion o lifogydd neu achub o ddŵr sy'n peri bygythiad uniongyrchol a allai achosi marwolaeth neu anaf.
Cydraddoldeb	gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.
Y Gymraeg	trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n ddiffiniedig.
Gwella Parhaus	gosod amcanion yn barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad.
Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.


Gallwch ddarllen mwy am ein rhwymedigaethau statudol yma.

Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2024-25. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2024-25, a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn, 31 Hydref 2025.

Ym mis Ebrill 2021 cymeradwyodd y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC) y 'Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol' (CRMP) fel Safon Tân ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr. Er bod y Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae'r holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu canllawiau'r NFCC i gyhoeddi CRMP.

Mae'r Awdurdod wedi ymgorffori argymhellion yr NFCC yn ei gylch adrodd blynyddol, ac wedi diweddaru ei gynllun hirdymor blaenorol gyda Chynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd newydd 2024-29. Mae Pum Egwyddor newydd yr Awdurdod wedi disodli'r saith amcan gwella a lles hirdymor presennol.



Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori trwy bob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2025-26.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

Ein Hegwyddor Pobl

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir. Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru gydnerth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru iachach



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Cymru tecach

Cymru llewyrchus

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn Arolwg Staff Teulu Tân 2023.

Sefydlwyd Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd i ffurfio rhan o gynllun gweithredu ar gyfer gwella, yn dilyn adborth a dderbyniwyd.

Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r Gwasanaeth, yn adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth.

Mae cynllun gweithredu ar y gweill ac mae'n cael ei gyfathrebu i'r holl staff yn rheolaidd.

Mae'r gweithgareddau a gwblhawyd hyd yma yn cynnwys:

- Cyflwyno gwisgo 'dangosyddion rôl' fel rhan o'r wisg weithredol.
- Paratoi creu ardal ymgysylltu newydd ar y fewnrwyd.
- Addasiadau i'r seremoni wobrwyo flynyddol.
- Gweithgareddau ymgysylltu â ffrydiau gwaith rheolwyr criw.
- Nodwedd newydd 'Goleuo Llwyddiant' yng nghylchlythyr mewnol y Gwasanaeth, lle gall cydweithwyr adnabod gwaith eu cyfoedion.

Mae'r gwaith yn parhau i sefydlu cynlluniau ar gyfer dyfodol y grŵp, ac aelodau newydd, i baratoi ar gyfer yr arolwg staff nesaf sydd i fod yn ystod yr Hydref 2025.

Amcan 2: Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2025-2030 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl yn arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.

Mae'r fersiwn derfynol o'r strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol wedi'i chymeradwyo gan Grŵp Cymru Gyfan. Roedd yr amcanion y cytunwyd arnynt rhwng tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn cynnwys:

- Cynllunio'r gweithlu
- Diwylliant a Chynhwysiant
- Iechyd a Llesiant
- Arloesi a Thechnoleg
- Arweinwyr y Dyfodol

Mae'r fersiwn ddrafft wedi'i hanfon at y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol am eu sylwadau.

Amcan 3: Cyflwyno 'Fforwm Ymgysylltu Diwylliant Staff: Grymuso Diwylliant yn ein Gwasanaeth' – i esblygu a datblygu ein taith ddiwylliannol yn barhaus.

Mae diwylliant y gweithle wedi bod yn ffocws llawer o'n gweithgareddau yn ddiweddar, gyda sawl menter allweddol yn digwydd ar draws y Gwasanaeth, yn ogystal â chraffu allanol uwch.

Yn ystod mis Gorffennaf, penododd y Gwasanaeth, ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Crest Advisory ar y cyd i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol.

Ochr yn ochr â'r adolygiad allanol hwn, ceisiwyd gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn Fforwm Ymgysylltu Diwylliannol Staff newydd, i fod yn rhan weithredol o'r daith wella diwylliannol o fewn y Gwasanaeth, i helpu i nodi a gweithredu cynlluniau gwella sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd ac yn helpu i feithrin a hwyluso amgylchedd gwaith cynhwysol, cefnogol ac effeithiol.

Cafwyd ymateb gwych i'r apêl hon, ac mae cynrychiolaeth ar y fforwm gan ddetholiad eang o staff o wahanol adrannau, gorsafoedd a swyddogaethau.

Mae'r Fforwm wedi sefydlu cysylltiadau cryf â'r Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân ac roedd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir gan y Gwasanaeth wedi'i wreiddio mewn atebolrwydd a thryloywder, gydag ymrwymiad i ragoriaeth a gwelliant parhaus.

Gweithiodd y Fforwm hefyd yn ochr yn ochr â'r Tîm Trawsnewid, adrannau eraill, a chyrff cynrychioliadol i ddewis meysydd ffocws er mwyn nodi materion oedd angen eu codi i'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad gan Crest Advisory, sefydlwyd bwrdd diwylliannol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Tân. Yn y dyfodol, bydd yn gweithio'n agos gyda

rhwydweithiau staff, Grwpiau Ymgysylltu â Staff, Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân, yn ogystal â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Y nod yw sicrhau bod y broses mor gydweithredol a chynhwysol â phosibl, lle mae gan bawb lais wrth lunio dyfodol y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Amcan 4: Darparu cefnogaeth iechyd a lles galwedigaethol ardderchog i sicrhau bod Rheoli Presenoldeb o fewn y Gwasanaeth yn broses gadarnhaol a chefnogol er mwyn gwella presenoldeb.

Cynhaliwyd proses dendro yn ystod y flwyddyn i gaffael darpariaeth gwasanaethau darparwr Iechyd galwedigaethol newydd. Hysbyswyd yr holl weithwyr am drosglwyddo cofnodion gwybodaeth iechyd o'r darparwr presennol i'r cwmni newydd, llwyddiannus.

Rhoddwyd cymorth AD ychwanegol ar waith am gyfnod byr o amser, i leihau unrhyw effaith a mynd i'r afael ag unrhyw benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu cwmpasu gan atgyfeiriad iechyd galwedigaethol.

Ymgymerodd arbenigwyr AD ag ymweliadau gorsafoedd rheolaidd, sesiynau Siop Siarad, Hyfforddiant Ar-lein, a chyfarfodydd i sicrhau bod yr holl weithwyr yn parhau i gael eu cefnogi yn ystod y cyfnod pontio.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant i sicrhau bod cyfres gynhwysfawr o gymorth ar gael i'r holl staff. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithio â sefydliadau allanol fel Mind, Elusen y Diffoddwyr Tân, 2 Wish, a gwasanaethau golau glas eraill fel Heddlu Gogledd Cymru. Mae canllaw byr newydd wedi'i greu i staff a rheolwyr llinell ei ddefnyddio yn dilyn canlyniad yr adolygiad diwylliannol, yn ogystal â phecynnau fideo a gynhyrchwyd gyda chymorth Cyfathrebu Corfforaethol.

Amcan 5: Sicrhau gweithlu diogel a chymwys drwy ddatblygu, cynnal a chylchredeg polisïau a gweithdrefnau gweithredol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gwaith gyda Pholisïau a Gweithdrefnau yn parhau gyda chwe chyfres bolisi yn cael eu hawdurdodi i symud ymlaen i naill ai ymgynghori neu gyhoeddi ym mhob cyfarfod ffurfiol chwe wythnos o'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth. Mae adran arall wedi cymryd rhan mewn cynnig polisi newydd sbon, tra bod y ddwy adran gyda'r set fwyaf o gyfreithiau polisi (Adnoddau Dynol, a Chyllid a Chaffael) yn agos at gwblhau eu set lawn o ddogfennau. O ran strategaeth, mae amserlenni bellach yn cael eu sefydlu yn gynnar yn y broses ddatblygu polisi trwy'r Canllaw Proses pwrpasol; mae hyn yn cynnwys nodi cyfarfod ffurfiol y Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth fel targed i gymeradwyo cyfres bolisi ar gyfer ymgynghori ac mae'n profi'n llwyddiannus wrth ganolbwyntio'r perchennog polisi i ymgymryd mewn modd amserol.

Mae'r gwaith yn parhau gyda'r Adran TGCh i wneud y rhyngwyneb polisi ar yr Hŵb mewnol yn fwy hawdd ei ddefnyddio. Yn yr un modd, mae'r maes polisi iaith Gymraeg wedi'i boblogi â'r dogfennau sydd wedi'u dychwelyd gan y gwasanaeth cyfieithu, ac mae'r rhain i gyd bellach ar y templed diweddaraf ac yn y fformat cywir, yn barod i'w prawfddarllen.

Amcan 6: Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am risg weithredol yn cael ei chasglu, ei chofnodi, ei hasesu a'i chyfleu i bersonél gweithredol.

Roedd personél o'r Gwasanaeth yn cadeirio ac yn mynychu cangen y 'Gweithgor Ynni

Adnewyddadwy' o Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru. Pwrpas y grŵp hwn yw nodi safleoedd risg uchel newydd a phresennol yn ardal Gogledd Cymru. Trefnwyd cyfarfod anghyffredin i roi ymateb ymgynghorol ffurfiol i safle System Ynni a Storio Batri yn ardal Gwynedd.

Cynhaliwyd ymweliadau risg gweithredol fel y cynlluniwyd ac mae adolygiad o Borthladd Caergybi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Amcan 7: Darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.

Ym mis Tachwedd, mynychodd aelodau'r Gwasanaeth Tân gynhadledd 'Hyrwyddo Dwyieithrwydd o fewn y Gwasanaeth', a drefnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y digwyddiad, a oedd yn anelu at annog arferion dwyieithog yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn rhoi amrywiaeth gyffrous o drafodaethau, strategaethau ac astudiaethau achos yn arddangos integreiddio llwyddiannus y Gymraeg i'r gweithle, y cyfryngau, addysg a bywyd cymunedol.

Er mwyn gwella a helpu i nodi Archwiliadau Diogel a Iach wedi'u cwblhau yn Gymraeg, ychwanegwyd cwestiwn newydd sy'n benodol i'r dewis iaith Gymraeg at y ffurflen atgyfeirio ar-lein.

Cymeradwywyd adroddiad monitro blynyddol Safonau'r Gymraeg gan aelodau'r Awdurdod Tân yn y cyfarfod ar 21 Hydref 2024 ac mae ar gael i'w weld yma.

Rydym yn gwasanaethu cymuned ddwyieithog, ac mae ein Gwasanaeth yn gweithredu mewn dwy iaith, gan roi cyfle i'n trigolion weithio'n lleol yn eu hiaith leol.

Amcan 8: Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig dylunio ar gyfer y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygu newydd gan arwain at gyflwyno cynllun terfynol i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

Sefydlwyd prosiect y Ganolfan Hyfforddi i ymateb i risgiau gweithredol ac ariannol sy'n gysylltiedig â threfniadau hyfforddi cyfredol ac i ddarparu cyfleuster addas i'r diben sy'n diwallu anghenion hirdymor y Gwasanaeth. Dechreuodd y prosiect yn 2022, a chwblhawyd y pryniant tir yn ystod mis Hydref 2024.

Yng Nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 21 Hydref 2024, cyflwynwyd 4 dewis i'r Awdurdod i'w hystyried:

- Dewis 1: Cynnal cyfleusterau presennol gyda mân adnewyddiadau.
- Dewis 2: Buddsoddi mewn uwchraddio cyfleusterau presennol. Dewis 3: Datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd i ddiwallu anghenion hyfforddi craidd.
- Dewis 4: Datblygu canolfan hyfforddi aml-berygl gynhwysfawr, aml-asiantaeth.

Cymeradwyodd yr Awdurdod, dewis tri, mewn egwyddor, ac roeddent wedi ymrwymo i gynnal momentwm y datblygiad, gyda ffocws ar fforddiadwyedd ac opsiynau ariannu cynaliadwy.

Nodwyd y bydd angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r prosiect hwn a bydd hysbysebion swyddi yn cael eu hysbysebu yn gynnar y flwyddyn nesaf ar gyfer Dirprwy Reolwr Prosiect a Swyddog Cymorth Prosiectau.

Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn ystod 2029.

Amcan 9: Darparu ail flwyddyn strategaeth hyfforddiant gweithredol tair blynedd i'r holl staff gweithredol.

Adolygwyd a chytunwyd ar y cynllun hyfforddi drafft ar gyfer 2025-26, cyn cael ei gyhoeddi ar y Fewnrwyd Gwasanaeth.

Mae'r adborth a gafwyd ar gyrsiau a gynhaliwyd yn chwarter un wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae adborth a oedd yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwella posibl wedi'i rannu gyda'r rheolwr priodol ar gyfer gweithredu.

Mae personél gweithredol wedi mynychu Coleg y Gwasanaeth Tân i ymgymryd:

- Cwrs Hyfforddwr Cyfarpar Anadlu
- Cwrs Hyfforddwr Damwain ar y Ffordd
- Cwrs Hyfforddwr Technegau Ymddygiad Tân Adrannol

Bydd y sgiliau hyn yn gwella darparu cyrsiau gwasanaeth a hyblygrwydd o fewn y tîm o hyfforddwyr Gwasanaeth.

Mae archwiliad o weithredu'r strategaeth hyfforddi gyfredol wedi'i gynnal gan ddarparwr allanol ac mae'r adroddiad wedi'i ddarparu i'r Gwasanaeth. Mae'r adroddiad wedi rhoi sgôr sylweddol ar draws sawl maes hyfforddi a pherfformiad cyffredinol yr Adran Hyfforddi a Datblygu.

Mae'r adroddiad archwilio hefyd yn tynnu sylw at nifer o argymhellion, a bydd y rhain yn rhan o gynllun gweithredu adrannol hyfforddiant ar gyfer 2025-26.

Amcan 10: Meithrin amgylchedd yn y gweithle sy'n cofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaeth a chymorth o ansawdd uchel i'r cyhoedd yn ystod argyfyngau.

Cyn ymgynghoriad Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 y gwasanaeth, cynhyrchodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i nodi gwahanol grwpiau buddiannau cydraddoldeb.

Cysylltwyd â 70 o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn ystod y cyfathrebu cychwynnol i helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad ac annog pobl i roi adborth. Yn ogystal, trefnwyd 12 grŵp ffocws i sicrhau bod y gwasanaeth yn casglu adborth gan wahanol grwpiau cydraddoldeb ledled Gogledd Cymru. Roedd y cynnig o sesiynau wyneb i wyneb yn effeithiol iawn, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, a phobl nad ydynt yn gallu cyflwyno adborth ar-lein oherwydd and oes ganddyn nhw fynediad i'r we a chyfryngau cymdeithasol, neu yn dewis peidio eu defnyddio.

Mae'r adborth a gasglwyd wedi helpu'r Swyddog EDI i greu Adroddiad Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr sy'n cynnig sicrwydd o ran cyfeiriad strategol, gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

Wrth baratoi ar gyfer ymgyrch recriwtio diffoddwyr tân llawn y gwasanaeth yn ystod Mehefin 2024, trefnwyd ystod o weithgareddau gweithredu cadarnhaol, a oedd yn cynnwys 'diwrnodau darganfod' a sesiynau 'Ffitrwydd Tân'. Roedd yr ymgyrch yn anelu at dargedu pobl sydd wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu gweithredol ar hyn o bryd fel ffordd o annog fwy o amrywiaeth o bobl i wneud cais am rolau diffoddwyr tân yn y dyfodol.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- Dathlu diwrnod Windrush ym mis Gorffennaf, gyda digwyddiad wedi'i drefnu yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Sesiwn gofal bugeiliol wedi'i theilwra ar gyfer diffoddwyr tân prentis dan hyfforddiant newydd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.
- Y cyntaf o ddigwyddiad teithiau cerdded y Merched yn y Gwasanaeth Tân yn ystod mis Awst.

Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2023-24 gan aelodau'r Awdurdod Tân yn y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

Amcan 11: Gwella iechyd, ffitrwydd a llesiant staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei fod yn agored i'w staff i sefyllfaoedd o straen corfforol a meddyliol ac mae eu cefnogi yn allweddol i sicrhau gweithlu diogel ac iach. Felly, mae tîm Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant pwrpasol yn gweithio i gefnogi staff trwy hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw, a thrwy ddarparu cyngor a chefnogaeth ar draws meysydd lles amrywiol.

Ar ôl penodi'r darparwr iechyd galwedigaethol newydd, cynhaliwyd cyfarfodydd i rannu arfer da a thrafod y posibilrwydd o brofi atgyfeirio newydd a dychwelyd i'r gwaith.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynglŷn â'r broses ar gyfer pan fydd staff gweithredol yn methu eu profion ffitrwydd blynyddol. O ganlyniad, bydd staff Iechyd Galwedigaethol nawr yn gweithredu system sgorio a fydd yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd, gan ganiatáu ymyrraeth gyflymach lle bo angen.

Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda'r adran Adnoddau Dynol i leihau cyfnodau o salwch oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac i gynorthwyo'r gweithwyr hynny sydd wedi bod oddi ar y gwaith gyda phroblemau iechyd meddwl i helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

Roedd presenoldeb yn y Symposiwm Iechyd Meddwl Golau Glas ym mis Ionawr yn canolbwyntio ar ddiwylliant, cefnogaeth i deuluoedd ac atal hunanladdiad. Rhannodd y prif siaradwr rai offer defnyddiol y mae'r Gwasanaeth bellach yn ceisio eu mabwysiadu, gan gynnwys pecyn cymorth cymorth i deuluoedd fel y'i defnyddir gan y Gwasanaeth Ambiwlans, Offeryn Dysgu Ar-lein y Rhaglen Gobaith, a'r Canllaw Hunanladdiad Elusennol Elusennau Diffoddwyr Tân.

Cafodd myfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngholeg Menai yn Llangefni flas o'n proses ymgynghori profion ffitrwydd a lles fel rhan o'u gwaith aseiniadau. Mynegodd llawer o'r myfyrwyr ddiddordeb brwd mewn ymuno â'r gwasanaeth ac mae rhai unigolion

wedi cadarnhau y byddant yn gwneud cais am rolau diffoddwr tân wedi'u cadw mewn gorsafoedd cyfagos.

Roedd hwn yn gyfle gwych i weithio yn ein cymuned i gynnig cyngor iechyd, dangos y safonau o fewn ein gwasanaeth a hyrwyddo recriwtio.

Roedd camau gweithredu eraill wedi'u cwblhau yn cynnwys:

- Cynnal gweithdy Atal Hunanladdiad i Bobl Hŷn yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Trefnu cystadleuaeth fewnol sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol ar draws y Gwasanaeth.
- Mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yng ngorsafoedd tân Porthmadog, Dolgellau a'r Rhyl yn ystod mis Rhagfyr gan gynnig gwiriadau pwysedd gwaed am ddim a chyngor ar iechyd a lles.

Amcan 12: Adolygu'r pyrth ar gyfer dyrchafiad a dilyniant gyrfa a gweithredu proses arfarnu gynhwysfawr sy'n integreiddio adborth 360 gradd.

Mae'r gofyniad am broses arfarnu adborth 360 wedi'i archwilio'n drylwyr yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi staff i nodi eu cryfderau ac unrhyw feysydd i'w gwella, gan arwain at well hunan-ymwybyddiaeth, yn ogystal â hyrwyddo dros dro a gwella cadw gweithwyr.

Cynhaliwyd cyfnod helaeth o ymchwil yn edrych ar Wasanaethau Tân ac Achub eraill am enghreifftiau o arfer gorau ac yna cwrdd â rhestr fer o gyflenwyr posibl i arddangos eu cynhyrchion a siarad am y manteision y byddai'n eu cyflwyno i'r Gwasanaeth.

Following a comparison of product aYn dilyn cymhariaeth o allu cynnyrch a chostau, gwnaed penderfyniad i brynu a bwrw ymlaen â'r feddalwedd Appraisal360. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gydag Appraisal360 i symud ymlaen wrth weithredu eu system, ac i sicrhau eu bod ar fframwaith caffael.

Mae'r platfform meddalwedd 360 bellach yn barod i'w gyflwyno i aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth yn unol â'r cynllun gwreiddiol.

bility and costings, a decision was made to purchase and proceed with the Appraisal360 software. Further meetings were held with Appraisal360 to progress the implementation of their system, and to ensure they are on a procurement framework.

The 360-software platform is now ready to be rolled out to members of the Service Leadership Team in line with the original plan.

Amcan 13: Bydd staff ataliol yn derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio ar Blant a Thrais Domestig er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Parhaodd sesiynau hyfforddi bob mis i ddatblygu gwybodaeth yn barhaus o fewn y timau Atal Diogelwch Tân.

Roedd y pynciau'n cynnwys:

- Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol a Llinellau Sirol
- Beth yw Niwroamrywiaeth?
- Hyfforddiant Amddiffyn Unigol
- Menywod sy'n gaeth i Gamblo

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gorfodol 'Gofyn a Gweithredu' yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyn bob dwy flynedd.

Amcan 14: Bydd staff Diogelwch Tân Busnes a Diffoddwyr Tân Gweithredol yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Cymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân sy'n gweithio tuag at gofrestru o fewn Cofrestr Gyd-destunol yr Archwilydd.

Mae nifer o staff Diffoddwyr Tân Gweithredol wedi ymgymryd â chymwysterau lefel 2 Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder, tra bod staff Tân Busnesau wedi ymgymryd â chymysgedd o gymwysterau i ennill y Dystysgrif Lefel 3, y Dystysgrif Lefel 4, a'r Diploma Lefel 4 mewn Diogelwch Tân.

Mae nifer o fodiwlau y mae personél wedi'u cwblhau mewn perthynas â'r cymwysterau hyn sy'n cynnwys Rheoliadau Adeiladu a Hyfforddiant Cyfreithiol ar gyfer y Diploma.

Ar hyn o bryd mae aelod o staff yn gweithio tuag at gymhwyster Technegydd Peirianneg Tân, sy'n gymhwyster Lefel 5.

Mae nifer o gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd wedi'u darparu i sicrhau dysgu parhaus ac ymrwymiad i ddatblygiad staff yn yr amgylchedd Diogelu.

Yn arbennig ar ôl Grenfell, mae drysau tân wedi dod yn bwnc hyd yn oed mwy nag yr oeddent o'r blaen oherwydd y methiannau hynny, felly, cwblhaodd yr holl staff gwrs arolygu drysau tân.

Mae nifer o staff hefyd wedi cwblhau'r cwrs Memoranda Technegol Iechyd, sy'n ymwneud ag archwilio safleoedd Gofal Iechyd, a chwblhawyd hyn mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r hyfforddiant hwn yn barhaus i gydymffurfio â Fframwaith Cymhwysedd Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol ac agwedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus y fframwaith hwnnw.

Amcan 15: Bydd staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant a chymwysterau perthnasol i'w galluogi i gynnal archwiliadau diogelwch busnes yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Cynhaliwyd Cyfarfod yng Nghanolbarth Cymru ar gyfer gweithgorau Diogelwch Tân Cymru Gyfan. Roedd hyn er mwyn sicrhau parhad ledled Cymru ar gyfer y broses archwilio ar gyfer criwiau gweithredol.

Mae datblygiadau wedi'u gwneud i'r system gronfa ddata Diogelwch Tân i sicrhau bod mewnbwn gwybodaeth yn haws i griwiau gweithredol ei chwblhau ac felly'n cael ei

gofnodi'n fwy cywir.

Cafodd pecyn hyfforddi ei ddatblygu a'i gyflwyno ar draws staff gweithredol ar sut i gwblhau'r 'Ffurflen Archwilio Busnes Fer' newydd.

Darparwyd cwrs arolygu drysau Diogelwch Tân gan ddarparwr allanol, a roddodd fewnwelediad gwerthfawr i'r enghreifftiau da a drwg o ddrysau tân.

Cwblhaodd un o'r Swyddogion Cydymffurfio Tân Busnes ei gymhwyster Diploma Lefel 4 (Arolygwyr Tân) yn llwyddiannus.

Mae cynllun hyfforddi eisoes wedi'i ddatblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf, i sicrhau bod modd symud ymlaen hyfforddiant cyn gynted ag y bydd y flwyddyn 2025-26 yn dechrau.

Amcan 16: Nodi a gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd.

Cymerodd staff ran yn Rhaglen Arweinydd Canol Cyngor y Pennaethiaid Tân Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau sy'n canolbwyntio ar:

- Pwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, dadansoddiad personol Cryfderau, Gweniddau, Cyfleoedd, Bygythiad (SWOT), a ffenestr Joharis.
- Arddulliau Dysgu eraill, fel y model 70/20/10.
- Mae'r model 70-20-10 yn fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu sy'n awgrymu sut mae unigolion yn caffael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae'n cynnig bod 70% o'r dysgu yn dod o brofiadau yn y gwaith, 20% o ryngweithiadau cymdeithasol, a 10% o hyfforddiant ffurfiol.
- Beth sy'n gynhwysol, ac modelu rôl ymddygiadau cynhwysol.
- Model cyfathrebu Shannon a Weaver
- 4 lefel gwrando Janet Starr.

Ym mis Ionawr, dechreuodd y Gwasanaeth dreialu dull newydd a chynhwysol o gyfweliadau ar gyfer rolau a hysbysebir yn fewnol ac yn allanol. Mae'r fenter hon yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i greu proses recriwtio gefnogol a theg i bob ymgeisydd.

Mae prif nodweddion y dull cyfweld newydd yn cynnwys:

- Deunyddiau Darllen Perthnasol: Bydd ymgeiswyr a wahoddir i gyfweliadau yn derbyn dolen i ddim mwy na phum dogfen ddarllen allweddol. Bydd y dogfennau hyn yn berthnasol uniongyrchol i'r cwestiynau cyfweliad, gan sicrhau bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ac yn cael eu hysbysu.
- Amser Paratoi Cyn y Cyfweliad: ar ddiwrnod y cyfweliad, bydd ymgeiswyr yn cael cyfnod o 30 munud i adolygu'r cwestiynau a chymryd nodiadau. Bydd hyn yn digwydd mewn ystafell ddynodedig gydag aelod o staff yn bresennol am gymorth.
- Gwerthuso: bydd dolen i ffurflen ar-lein yn cael ei hanfon at bob ymgeisydd drwy e-bost i gasglu adborth ar ddiwedd pob ymgyrch recriwtio.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â gwaith a damweiniau a fu bron â digwydd yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles. Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, anogir cyrff cyhoeddus i gynnwys crynodeb o'u perfformiad iechyd a diogelwch yn eu hadroddiadau blynyddol.

Iechyd a Diogelwch

Ystadegau digwyddiadau diogelwch dros y flwyddyn ariannol 2024/25

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Cynnydd o 18% mewn ddamweiniau

Cafodd **289** o ddigwyddiadau diogelwch ei gofnodi rhwng Ebrill 1af a Mawrth 31ain, i gymharu â chyfanswm o **307** dros y cyfnod 2023/24. Mae hyn yn ostyngiad o **6%**.

103

Achosion Agos

47

o anafiadau

34%

o anafiadau yn arwain at amser i ffwrdd o'r gweithle


15

adroddiadau o ddifrod i Fflyd Wen

73

adroddiadau o ddifrod i Fflyd Goch

Fath o Ddifrod Cerbyd



Ymlaen: **79%**

Nôl: **11%**

Sefydlog: **10%**

Ein Hegwyddor Atal

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang


Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Cynnal 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach ledled Gogledd Cymru i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tan yn y cartref, gan gadw pobl yn fyw ac yn ddiogel rhag tan.

Cwblhawyd cyfanswm o 20,021 o Archwiliadau Diogel a Iach gan y Gwasanaeth ar draws cymunedau Gogledd Cymru, ac ohonynt:

- Roedd **5,089** (25.4%) yn flaenoriaeth uchel, gyda **2,689** (52.8% sy'n flaenoriaeth uchel wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **4,310** (21.5%) yn flaenoriaeth ganolig, gyda **426** (9.9% sy'n flaenoriaeth canolig wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **10,622** (53.1%) yn flaenoriaeth isel, gyda **606** (5.7% sy'n flaenoriaeth isel wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.

Cyfeiriwyd cyfanswm o **3,721** o Archwiliadau Diogel a Iach a gwblhawyd i'r Gwasanaeth gan Asiantaeth, sy'n cyfateb i 18.6% o gyfanswm y archwiliadau a gwblhawyd.



Amcan 2: Defnyddio data partneriaeth i fireinio ein dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i dargedu'r rhai dros 65 oed sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tan yn y cartref.

Mae cytundeb rhannu data gyda phob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a'r GIG wedi'i gwblhau, sy'n caniatáu i'r GIG rannu setiau data ar gyfer pobl 65 oed a hŷn gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu hardal.

Mae'r dadansoddwyr perfformiad wedi defnyddio'r data hwn i greu dangosfyrddau a mapiau rhyngweithiol, sy'n dangos ardaloedd lle mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn byw mewn cymunedau lleol. Mae'r dadansoddwyr perfformiad wedi addasu'r mapiau i nodi'r grwpiau oedran canlynol:

- 65 oed a throsodd
- 75 oed a hŷn, a
- y rhai sy'n 85 oed a throsodd

Mae ein personél tân gweithredol amser cyflawn a criw dydd bellach yn ymgymryd â gweithgareddau atal gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i dargedu aelwydydd sy'n 65 oed a throsodd ac a allai fod mewn mwy o berygl o dân yn digwydd yn y cartref.

Mae aelodau o'r Tîm Atal hefyd wedi bod yn mynychu gorsafoedd Dyletswydd Amser Cyflawn a Chriw Dydd i ymuno â gweithgaredd dyrannu atal dyddiol y Gwylfeydd sydd ar ddyletswydd. Bydd hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn helpu i hyrwyddo arfer gorau, ac wedi galluogi sicrhau ansawdd i ddigwydd ar safon Archwiliadau Diogel ac Iach, yn ogystal ag ar y wybodaeth a gyhoeddir.

Ymwelodd personél o'r adran Diogelwch Tân â gweithredwyr yr ystafell reoli a chyflwyno cyflwyniad ar gor-gasglu difrifol yn dilyn achos yr oeddent yn ymwneud ag ef. Yn yr achos hwn, roedd y preswylydd yn hynod ynysig, yn teimlo embaras, ac yn anfodlon ymgysylltu â gwasanaethau. Fodd bynnag, gydag amynedd a sgiliau cyfathrebu eithriadol, roedden nhw'n gallu adeiladu perthynas a magu ymddiriedaeth gyda pherchennog y tŷ. Trwy'r cysylltiad hwn, caniataodd yr unigolyn yn raddol i asiantaethau eraill gamu i mewn, gan alluogi dull aml-asiantaeth i wella'r sefyllfa. Mae timau ystafell reoli yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed yn rheolaidd, ac mae'r sesiwn hon yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i'r heriau bywyd go iawn sy'n wynebu ar lawr gwlad.

Amcan 3: Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ymyriadau diogelwch cymunedol effeithiol sy'n targedu ein pobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein hardaloedd mwyaf heriol.

Parhaodd Grŵp Llywio'r Ymgyrch i gyfarfod yn fisol i flaenoriaethu gweithgareddau atal tân yn y gymuned. Mae'r adrannau Cyfathrebu Corfforaethol wedi hyrwyddo'r ymgyrchoedd hyn ar draws pob platfform cyfryngau cymdeithasol.

Parhaodd staff atal sesiynau ymgysylltu â phartneriaid allanol i helpu i sicrhau ein bod yn derbyn atgyfeiriadau archwiliadau diogel ac iach o fewn grwpiau targed yn unig.

Roedd enghreifftiau o ymgysylltu â phartneriaeth yn cynnwys cyfarfod â:

- Y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi'i leoli yn Ysbyty Alltwen
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Therapyddion Galwedigaethol
- Cymdeithasau tai, a
- Tîm prosiect Heddlu Gogledd Cymru "Hel, Dal, Cryfhau".

Parhaodd y Gwasanaeth gyda'i gwaith arloesol gyda'r Groes Goch Brydeinig. Mae gwirfoddolwyr yn defnyddio cerbydau wedi'u haddasu'n arbennig, wedi'u stocio ag eitemau cymorth ymarferol fel dillad, blancedi, a phecynnau hylendid, a gallant fynychu gwahanol fathau o ddigwyddiadau brys i gefnogi pobl sy'n ymwneud ag argyfyngau fel tanau domestig, llifogydd neu ddigwyddiadau mawr.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi partneru â Safelincs i ddarparu cyngor ac arweiniad ar-lein i leihau'r risg o dân yn y cartref. Mae'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref Ar-lein wedi'i ddatblygu gyda chefnogaeth holl Wasanaethau Tân ac Achub y DU, a'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol.

Yn ystod mis Ionawr, datganodd Dŵr Cymru ddigwyddiad mawr pan ffrwydrodd prif gyflenwad dŵr yn eu gwaith trin dŵr ym Mryn Cowlyd. Effeithiodd hyn ar y cyflenwad dŵr i dros 38,000 o eiddo yn ardal Conwy. Ymunodd y Gwasanaeth ag ymateb aml-asiantaeth i helpu i adnabod pobl agored i niwed. Roedd criwiau tân, gan gynnwys y rhai yn Llandudno, Bae Colwyn, Conwy ac Abergele, yn ogystal â staff o'n hadran Atal, yn brysur yn ein cymunedau, yn helpu i ddarparu dŵr potel i'r rhai mewn angen a chynorthwyo yn y mannau casglu dŵr a ddynodwyd gan Dŵr Cymru.

Amcan 4: Datblygu menter ieuenctid newydd i ddarparu ymyriadau cynnar gyda chanlyniadau effeithiol, gan ganolbwyntio ar wytnwch personol a ffactorau amddiffynnol ymhlith plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

Mae staff o dimau Atal a Ffenics wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd â chydweithwyr o'r Wylfa Las, Y Rhyl ar gwrs ymyrraeth deuddydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych.

Darparwyd y cwrs ymyrraeth deuddydd hwn ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych fel rhan o raglen chwe wythnos o'r enw 'SKITTLES'.

Cynhaliwyd y cwrs yng Ngorsafoedd Tân Prestatyn a'r Rhyl, gyda'r rhaglen wedi'i anelu at unigolion 16-18 oed sy'n cael eu cyflwyno fel digartref. Nod y rhaglen yw ymgysylltu â phobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol, eu grymuso a'u hannog i gymryd mwy o ran â'u cymunedau. Roedd hefyd yn edrych i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r bobl ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus.

Cafwyd trafodaethau am ganlyniadau gweithredoedd, yn enwedig ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnau tân bwriadol a galwadau ffug, yn ogystal â sgyrsiau am ddiogelwch yn y llety dros dro y maent yn byw ynddo.

Ar ddiwedd y rhaglen chwe wythnos bydd mynychwyr wedi dysgu sut i ddatblygu perthnasoedd iach, ennill cymhwyster mewn hylendid bwyd, a chymorth cyntaf sylfaenol, a dysgu mwy am ymwybyddiaeth diogelwch tân, canlyniadau gweithredoedd a rôl y gwasanaeth tân.

Amcan 5: Hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffyrdd, ymgysylltu a phartneriaid a chynnal ymgyrchoedd o fewn y gymuned leol, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.

Yn ystod mis Ebrill, cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu ac addysg llwyddiannus i feicwyr modur yng Ngorsaf Dân Corwen. Daeth digwyddiad Panad i Feicwyr â chynrychiolwyr o Iechyd Meddwl Beiciau Modur, ROSPA Gogledd Cymru, Bloodbikes Cymru, Bikesafe, a swyddogion Beiciau Modur Traffig Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru at ei gilydd. Y nod oedd cysylltu â beicwyr modur a chynnig cyngor a gwybodaeth mewn lleoliad anffurfiol dros 'baned o de'.

Dywedodd yr holl asiantaethau a fynychodd eu bod wedi ymgysylltu'n dda â'r rhai a oedd yn bresennol, a'u bod i gyd wedi elwa.

Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Tîm Ymgyrch Ugain gyflwyniadau addysgol ar ochr y ffordd i yrwyr sy'n rhagori ar y terfyn 20mya, ac ymunodd disgyblion o Ysgol Eifion Wyn ym Mhorthmadog.

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Atal: "Mae data'n dangos bod gostyngiad o 32% wedi bod mewn anafiadau ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru ers ei gyflwyno ac mae tystiolaeth ar wahân gan yswirwyr yn dangos gostyngiad o 20% mewn hawliadau".

Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd cwrs Biker Down yng Ngorsaf Dân y Rhyl, gyda Swyddogion o Uned Troseddau Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol i ddangos eu cefnogaeth. Mae Biker Down yn gwrs rhad ac am ddim sy'n dysgu pobl sut i gadw beiciwr modur wedi'i anafu yn fyw nes bod ambiwlans yn cyrraedd yno pe byddant yn cyrraedd lleoliad gwrthdrawiad beic modur. Mae'r gweithdy yn cynnwys tri modiwl – rheoli lleoliad y digwyddiad, gofal damweiniau, a sgiliau reidio.

Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd ymarfer partneriaeth yng Ngorsaf Dân Bae Colwyn fel rhan o'n gwaith i helpu i reoli'r risg sy'n dod i'r amlwg o gerbydau trydan neu gerbydau sy'n cael eu tanwydd amgen.

Ymunodd staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â chydweithwyr o uned ymchwilio Heddlu Gogledd Cymru, swyddogion o'r adran Traffig, a chynrychiolwyr o Gyngor Sir y Fflint ar gyfer digwyddiad rhannu gwybodaeth.

Amcan 6: Gweithio'n agos a rhanddeiliaid allanol i atal boddi damweiniol yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu canllawiau cyson ar gyfer mwynhau a rheoli gweithgareddau yn ddiogel mewn dŵr, ar ddŵr ac o gwmpas dŵr.

Cynhaliwyd digwyddiadau diogelwch dŵr yn ystod mis Ebrill i nodi Diwrnod Cenedlaethol Atal Boddi, ynghyd ag aelodau o Gwylwyr y Glannau Achub y Clogwyni, Gwylwyr y Glannau Achub Mwd, a Canŵio Cymru. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn Llyn Tegid (Y Bala), Llyn Padarn (Llanberis), a Chanolfan Hamdden Plas Madoc (Wrecsam).

Nod yr holl ddigwyddiadau hyn oedd hyrwyddo'r neges diogelwch dŵr, 'Arnofio i Fyw', i helpu i godi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl helpu eu hunain pe baent yn cael trafferth mewn dŵr, a sut i fwynhau'r dŵr yn ddiogel. Roedd pob un o'r tri digwyddiad yn cynnwys cwch achub dŵr gyda chriw yn cael ei arddangos ac arddangosiadau ar sut i ddefnyddio llinell daflu a gwneud CPR.

Yn ystod y tywydd garw yn ystod mis Rhagfyr, roedd ymatebwyr aml-asiantaeth Gogledd Cymru yn gweithio'n ddiflino i amddiffyn ein cymunedau a lleihau effaith Storm Darragh.

Cyfarfu cynrychiolwyr y fforwm gwytnwch lleol sy'n cynnwys gwasanaethau brys, cynghorau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac asiantaethau a phartneriaid eraill yn rheolaidd yn y cyfnod cyn ac yn ystod y tywydd garw i gydlynu'r ymateb.

Gyda rhybudd coch prin am wynt a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dywydd yn ystod y storm, sy'n adlewyrchu amodau a allai fod yn peryglu bywyd, penderfynodd Llywodraeth y DU ddefnyddio'r system rhybuddio brys am y tro cyntaf yng Nghymru i rybuddio pobl am Storm Darragh sy'n dod i mewn. Derbyniodd tua tair miliwn o bobl ledled Cymru a de-orllewin Lloegr y rhybudd ar eu ffôn symudol. Roedd rhybudd coch y Swyddfa Dywydd yn cyd-fynd â rhybuddion llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ystod y penwythnos, derbyniodd ein gweithredwyr ystafell reoli 202 o alwadau yn ymwneud â'r tywydd garw, gyda 188 o'r rhain wedi'u derbyn ar anterth effaith y storm. Mynychodd y Gwasanaeth ystod eang o ddigwyddiadau ledled y rhanbarth, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â strwythurau peryglus oherwydd y gwynt, coed sydd wedi cwympo, gosodiadau trydanol wedi'u heffeithio, a thanau tai a achosir gan broblemau trydanol a digwyddiadau llifogydd mewnol/allanol – gan gynnwys gyrru trwy ddŵr llifogydd.

Amcan 7: Adolygu adroddiadau ac offer monitro gweithgareddau a datblygu dangosfyrddau hunanwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein gweithgareddau atal, diogelu ac ymateb.

Newidiwyd adroddiad Monitro Perfformiad yr Awdurdod i adlewyrchu'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol newydd a'r 'Pum Egwyddor' newydd sydd bellach wedi'u mabwysiadu.

Ymgymerodd ein Dadansoddwyr Perfformiad â hyfforddiant Microsoft Power BI, sydd wedi caniatáu creu dangosfyrddau rhyngweithiol a thechnegau delweddu data ar ystod o ddata digwyddiadau a diogelwch tân.

Mae'r newidiadau hyn i gyflwyno data wedi arwain at well dadansoddiad a gwell dealltwriaeth o dueddiadau penodol.

Mae dangosfyrddau hunanwasanaeth wedi'u cyflwyno i uwch reolwyr, gan roi mwy o wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddigwyddiadau brys ledled Gogledd Cymru, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau deinamig.

Bydd y gwaith hwn yn parhau i'r flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y dangosfyrddau sy'n cael eu defnyddio ac ymchwilio i feddalwedd mapio ychwanegol y gellir ei ddefnyddio i wella ar offer delweddu data cyfredol.

Ein Hegwyddor Diogelu

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru gydnerth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru iachach



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru llewyrchus

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Adolygu ein Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg bresennol a sicrhau bod gennym drefn wybodus a rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth i nodi'r dosbarthiad risg perthnasol ar gyfer ein holl safleoedd ledled Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfod Cymru Gyfan i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer y broses archwilio a'r criwiau tân gweithredol.

Ar ôl cyfnod o brofi, mae Ffurflen Byr Archwilio Busnes wedi'i datblygu ac mae bellach yn cael ei defnyddio gan staff Diogelwch Tân. Mae pecyn hyfforddi ar gyfer y Ffurflen Byr Archwilio Busnes wedi'i ddosbarthu i bersonél yr orsaf dân, sydd wedi cael croeso da.

Yn dilyn adolygiad o'r adran Ymateb, cynhaliwyd gwaith i weithredu cyfres o rolau newydd, gan gynnwys wyth Cadlywydd Gorsaf newydd. Maent bellach wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i archwilio gweithgarwch gwaith yn eu hardal eu hunain.

Disgwylir i gyflwyniad llawn i holl bersonél yr orsaf dân yn y defnydd o'r ffurflen hon gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf.

Amcan 2: Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n seiliedig ar wybodaeth i leihau anafiadau a marwolaeth yn sgil tanau mewn eiddo domestig ac annomestig.

Parhaodd y Gwasanaeth â'i raglen arolygu seiliedig ar risg a chefnogi adeiladau ledled ardal Gogledd Cymru er mwyn lleihau'r risg o dân. Gwneir hyn trwy archwilio, addysg, a chyhoeddi hysbysiadau ffurfiol.

Fe wnaethom brofi rhai heriau wrth gadw staff Diogelwch Tân Busnes wedi'u hyfforddi'n llawn ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae wedi profi'n her i gyrraedd targedau adrannol

oherwydd colli rhai personél a gan fod rhai archwiliadau diogelwch tân yn gallu cymryd mwy o amser nag eraill oherwydd cymhlethdodau'r adeilad, mae angen ymweliadau dilynol, neu hysbysiadau a chefnogaeth y mae'n rhaid eu darparu.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod Cymru Gyfan i sicrhau bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu cysondeb ac yn cadw at Gynllun Busnes Grŵp Diogelwch Tân Busnes Cymru Gyfan 2024-29. Mae hyn yn anoddach i'w reoli pan fydd staff yn ceisio ennill cymhwysedd gan fod elfennau o gysgodi ynghlwm. Dim ond staff cwbl gymwys all gynnal a chwblhau archwiliadau cymhleth.

Mae'r Gwasanaeth yn rhan o ddull Cymru Gyfan sy'n cefnogi'r Tîm Arolygu ar y Cyd sy'n gyfrifol am archwilio adeiladau uchel yn dilyn tân Tŵr Grenfell yn 2017.

Amcan 3: Datblygu'r ymgysylltu a busnes drwy hyfforddi ein staff a rhannu cyngor y diwydiant i leihau achosion o dan.

Gwnaed gwaith datblygu i'r system wybodaeth diogelwch tân i'w gwneud hi'n haws i griwiau gweithredol fewnbynnu eu canfyddiadau yn dilyn ymweliad tân a diogelwch.

Gwnaed gwelliannau pellach i'r pecyn hyfforddi mewnol ar gyfer criwiau gweithredol i ddod â'r broses yn unol â'r strategaeth targedu newydd.

Cynhaliwyd sawl diwrnod gweithredu tua diwedd y flwyddyn ariannol, ym Mangor, ac yn y Fflint fel rhan o gydweithrediad aml-asiantaeth gyda'r Heddlu, Mewnfudo, Cydymffurfiaeth a Gorfodi, a'r Safonau Tai a Masnach. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cyflwynwyd sawl hysbysiad gwaharddiad.


Amcan 4: Dadansoddi effaith larymau tan awtomatig ar y defnydd o'n hadnoddau a'u heffaith mewn amgylchedd annomestig.

Yn ystod yr ail chwarter, cynhaliwyd dadansoddiad gan y Tîm Perfformiad i edrych ar y cynnydd mewn larymau tân awtomatig masnachol (AFA), a chyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth.

Mae'r graff yn dangos nifer y galwadau AFA Masnachol a fynychwyd ac na fynychwyd yn ystod hanner cyntaf y pum mlynedd ariannol diwethaf. Mae'n bosibl gweld bod tuedd i fyny yn gyffredinol yn nifer y digwyddiadau nad ydynt yn cael eu mynychu.

Pan fydd galwad o'r math hwn yn cael ei ateb gan yr ystafell reoli, mae protocolau ar waith sy'n pennu a yw offer brys yn cael ei anfon, neu a ddarperir gwybodaeth i'r galwr.

Mae treial ar y gweill ar hyn o bryd ymhlith sawl gorsaf dân, lle byddant yn cynnal archwiliad diogelwch tân o adeiladau masnachol yn ardal eu gorsafoedd. Mae hyn ochr yn ochr ag uwch swyddogion tân sydd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i archwilio'r ffurflenni diogelwch tân hynny sydd wedi'u cyflwyno'n electronig.



Amcan 5: Gweithio gyda chymunedau lleol ar draws Gogledd Cymru i leihau nifer y digwyddiadau tanau gwyllt.

Daeth ail-lansio ymgyrch #DoethIDanauGwyllt Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru â'r tri gwasanaeth tân ac achub ledled Cymru at ei gilydd, ynghyd â'u partneriaid, i adeiladu ar y profiad a gafwyd dros y degawd diwethaf wrth ddelio ag effaith tanau gwyllt.

Mae'r ymgyrch yn annog y cyhoedd i fod yn 'Ddoeth i Danau Gwyllt' ac ymrwymo i ragofalon syml ac ychydig o ofal ychwanegol i sicrhau y gallwn barhau i fwynhau ein cefn gwlad hardd a chadw ein cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau dinistriol tân gwyllt.

Mae tanau gwyllt yn parhau i fod yn berygl i'n hamgylchedd, ein heconomi a'n cymunedau, nid yn unig yma yng Ngogledd Cymru ond ledled y wlad, ac felly mae'n bwysig i ni fod yn rhan o hyrwyddo'r fenter hon. Trwy weithio gyda'n cymunedau i rannu ein gwybodaeth, gobeithio y byddwn yn darparu gwell dealltwriaeth o'r difrod y gallant ei achosi, a'r hyn y gallwn ni i gyd ei wneud i gyfyngu ar danau damweiniol rhag digwydd.

Mae'r ymgyrch yn annog pobl i fod yn fwy gwyliog pan fyddant allan yn mwynhau cefn gwlad ac i fod yn rhagweithiol wrth riportio gweithgareddau amheus a all arwain at danau trwy godi ymwybyddiaeth o beryglon posibl tanau gwyllt. Mae'n annog aelodau o'n cymunedau i barchu ein cefn gwlad a chwarae eu rhan wrth ddiogelu ein hamgylchedd a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Gallwch ddysgu mwy am yr ymgyrch yma.

Nifer y tanau gwyllt a fynychwyd yn ôl blwyddyn ariannol:

Blwyddyn Ariannol	Ebrill i Mehefin	Gorffennaf i Fedi	Hydref i Ragfyr	Ionawr i Fawrth	Cyfanswm
2020/21	20	2	0	2	24
2021/22	10	2	1	21	34
2022/23	16	18	1	0	35
2023/24	11	2	0	1	14
2024/25	1	3	1	35	40

Cyhoeddwyd cyfarpar diogelu personol tân gwyllt ysgafn newydd i'r holl staff gweithredol i leihau effaith blinder yn ystod y digwyddiadau sy'n gallu bod yn hirdymor weithiau.

Mae gweithgor wedi'i sefydlu i nodi cerbyd addas gyda galluoedd oddi ar y ffordd a all gludo personél ac offer yn ddiogel i leoliad y llawdriniaeth.

Amcan 6: Mabwysiadu'r dull Paratoi, Ymroi, Atal a Diogelu i fynd i'r afael a thanau bwriadol, gan weithio'n agos gyda Phartneriaid Amlasiantaeth a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol wedi'i hadolygu, ac mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi'i ad-drefnu, gyda gwaith lleihau bwriadol wedi'i ailddosbarthu i feysydd eraill o'r Gwasanaeth.

Rydym yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner allweddol ar unrhyw safleoedd o risg uchel wedi'u nodi o losgi bwriadol.

Ein Hegwyddor Ymateb

Darparu ymateb brys effeithiol.

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru gydnerth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru iachach



Cymru sy'n fwy cyfartal

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Parhau i ddatblygu opsiwn gyda staff, rhanddeiliaid a'r Awdurdod Tan, sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i'w weithredu yn ystod 2024-25.

Cyfarfu grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR), dan gadeiryddiaeth aelod o staff ac a fynychwyd gan un ar bymtheg o gydweithwyr sy'n gweithio ar wahanol lefelau, meysydd ac adrannau o fewn y Gwasanaeth, gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân (FBU), ar sawl achlysur, lle gwnaethant drafod ac ymchwilio i sawl model ymateb brys.

Darparwyd diweddariadau rheolaidd ar sut mae'r gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân canlynol:

- 15 Ebrill 2024
- 17 Mehefin 2024
- 15 Gorffennaf 2024
- 20 Ionawr 2025

Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20 Ionawr 2025, cyfarwyddwyd swyddogion ymhellach i weithio gyda chyrff cynrychioliadol ar fodel a fyddai'n rhyddhau digon o adnoddau y gellid eu defnyddio'n wahanol i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol ledled Gogledd Cymru.

Ailymwelodd gweithgor o gynrychiolwyr FBU a'r Tîm Trawsnewid â syniad yr oedd yr FBU wedi'i awgrymu yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae hyn wedi'i ddatblygu gydag adroddiad drafft y disgwylir iddo fynd gerbron aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu cyfarfod nesaf ar 28 Ebrill 2025.

Amcan 2: Cefnogi ein Diffoddwyr Tan i ddarparu ymateb weithredol effeithiol, drwy ymchwil a datblygu offer modern, asesiadau risg ac arweiniad.

Er mwyn helpu i amddiffyn staff rhag halogion tân gwenwynig, mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno gweithdrefn golchi Offer Anadlu newydd. Mae peiriant golchi offer anadlu newydd bellach yn gwbl weithredol yng ngorsaf dân y Rhyl, ac mae amserlen o olchiadau blynyddol bellach ar waith.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw'r gwasanaeth cyntaf yng Nghymru i gynnal golchiadau tân blynyddol ac ar ôl tân. Mae hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth barhau i weithio i leihau halogion sy'n agored i'w ddiffoddwyr tân.

Mae hwdiau fflach newydd hefyd yn cael eu dosbarthu i bob gorsaf. Mae'r dilledyn hwn yn cydymffurfio â'r 'Dillad Amddiffynnol i Ddiffoddwyr Tân EN13911' - hwd fflach ar gyfer diffoddwyr tân ac, yn ogystal â darparu lefel llawer uwch o amddiffyniad rhag halogion, mae'n bodloni'r gofyniad ar gyfer lledaeniad fflam cyfyngedig, gwres pelydrol, a gwres darfudol.

Mae pebyll chwyddadwy wedi'u prynu ac wedi'u gosod ym mhob Uned Les i alluogi personél i newid i becyn tân / dillad gwaith glân lle bo angen mewn digwyddiadau brys.

Amcan 3: Rhaeadru manteision Microsoft 365 i'n holl bobl yn y Gwasanaeth.

Ar ddechrau'r flwyddyn mudwyd yr orsaf dân gyntaf yn llwyddiannus i 'OneDrive' a 'Microsoft Teams'.

Parhaodd gwaith i fudo pob gorsaf dân ac adrannau, a sefydlwyd gweithgor Seiberddiogelwch.

Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu a gynlluniwyd ac eithrio mudo yr ystafell reoli, a ohiriwyd oherwydd cyfres o danau gwyllt a ddigwyddodd ar yr un pryd â'r mudo. Cafodd y grŵp trawsnewid ei ohirio hefyd oherwydd blaenoriaethau cystadleuol, ac mae'r datblygiad mewnrwyd yn parhau i fod ar oedi wrth aros am fewnbwn gan y gweithgor Teulu Tân.

Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau i'r flwyddyn nesaf i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cwblhau ac mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo.

Amcan 4: Parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys i Ogledd Cymru I sicrhau bod gennym system gyfathrebu ddiogel, cadarn, rhyngweithredol a modern ar draws y rhanbarth.

Mae Tîm TGCh y Gwasanaeth wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Rhwydwaith Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y cynnydd a'r statws ar y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, ynghyd â darparu sianel lle gall y Gwasanaeth ddarparu mewnbwn wrth i'r prosiect symud ymlaen.

Mae'r Gwasanaeth wedi cysylltu ag un o arweinwyr y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys ar gyfer ardal Gogledd Cymru i hwyluso mynediad i rai o'n safleoedd, gan ddarparu gwybodaeth signalau mewn ardaloedd o sylw gwael.

Mae'r Gwasanaeth wedi ac yn parhau i ddarparu mewnbwn ar feysydd o sylw gwael ac wedi cynorthwyo i gasglu data sylw signal i helpu i boblogi'r mapiau signalau a fydd yn cynorthwyo i ddylunio ac adeiladu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.

Amcan 5: Cynnal adolygiad o'n cerbydau arbenigol, ac eithrio injanau tan, sy'n ymateb I argyfyngau.

Yn ystod Ebrill 2024, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor prosiect adolygu ymateb o'r awyr a thechnegol, gan edrych ar argymhellion ar sut i ddatblygu ein gallu ymateb o'r awyr a thechnegol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion ein cymuned nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei ysgogi gan ein fflyd awyr sy'n heneiddio ac unedau ymateb technegol.

Pwrpas y grŵp oedd ymchwilio, datblygu a gwerthuso ystod o opsiynau amnewid offer arbennig gweithredol.

Bydd argymhellion ar gyfer offer Platfform Ysgol Uchel newydd yn cael eu ceisio gan y Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Amcan 6: Datblygu fframwaith rheoli gorsafoedd newydd i gefnogi ein Rheolwyr i ddarparu gwasanaeth brys effeithlon ac effeithiol.

Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ar draws ardal y Gwasanaeth, cyflwynwyd strwythur ymateb rheolwyr gorsaf newydd o 1 Ionawr 2025.

Mae'r rolau newydd hyn yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb cyffredinol am ardaloedd gorsafoedd, gan gynnwys recriwtio ac argaeledd, sicrwydd gweithredol, a chyflawni parodrwydd gweithredol.

Gyda phersonél profiadol y Gwasanaeth yn symud yn ôl i orsafoedd tân, rhagwelir y bydd gwell llinellau cyfathrebu, gwell darparu gwasanaethau, a gweithio mewn partneriaeth.

Mae proses adolygu fisol wedi'i rhoi ar waith, gan adrodd i'r tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth.

Amcan 7: Ymgorffori a gwella'r Broses Sicrhau Ansawdd Gweithredol.

Mae Sicrwydd Gweithredol mewn Digwyddiadau yn cael eu cwblhau gan swyddogion System Dyletswydd Hyblyg sy'n mynychu y disgwylir iddynt sicrhau eu cydweithwyr a'u Rheolwyr Goruchwylio mewn digwyddiadau gweithredol; Er enghraifft, bydd y rheolwr dyletswydd hyblyg sy'n cael ei symud i ddigwyddiad yn asesu'r digwyddiad, ar ôl cyrraedd. Os nad ydynt yn cymryd drosodd y digwyddiad neu'n ymgymryd â rôl gefnogol fel rhan o'r system rheoli digwyddiad, gallant fabwysiadu rôl Swyddog Sicrwydd Gweithredol. Yn dilyn y digwyddiad, maent yn cofnodi'r canlyniad ar y systemau cofnodi electronig priodol.

Mae pob tîm yn yr orsaf yn derbyn ymweliadau sicrwydd gweithredol; bydd cynnwys a chwmpas yr olaf yn cael ei gynllunio gan y Grŵp Sicrwydd Gweithredol sy'n ystyried ystod o faterion megis materion gweithredol cyfredol, risgiau penodol a nodwyd, a pherfformiad yn y gorffennol.

Mae Rheolwr yr Orsaf (Rheolwr Digwyddiad ac Ysgol Yrru) yn gyfrifol am lunio rhestr fentora; Bydd hyn yn nodi pob rheolwr digwyddiad sy'n gofyn am fentor i gael ei neilltuo iddynt wrth fynychu digwyddiadau gweithredol. Mae'r rhestr hon yn cael ei diweddaru a'i chyflwyno I'r ystafell reoli yn fisol.

Mae ôl-trafod yn elfen allweddol o welliant parhaus. Mae rheolaeth ôl-trafod yn hanfodol i sicrhau dull cadarn a chyson o ddal canlyniadau monitro ac adolygu tasgau a gweithgareddau gweithredol. Mae ôl-drafidaeth yn parhau i gael eu cynnal yn y fan a'r lle yn dilyn yr holl ddigwyddiadau gweithredol a senarios hyfforddi, tra bod cynnwys yr ôl-drafodaeth a gynhelir yn dilyn digwyddiadau gweithredol yn cael ei gofnodi ar y Ffurflen Ôl-ddigwyddiad. Mae digwyddiadau nodedig sy'n gofyn am drafodaeth strwythuredig yn cael eu nodi gan y Tîm Sicrwydd Gweithredol, gan swyddogion System Dyletswydd Hyblyg sy'n mynychu, gan y Tîm Rheoli yr ystafell reoli, neu drwy rheolwr y digwyddiad.

Amcan 8: Cyflwyno Canllawiau Rheoli Tan Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tan yn ein Canolfan Reoli ar y Cyd, er mwyn sicrhau trefniadau rheoli tan cryf a gwydn.

Mae Dadansoddiad Bwlch Strategol (SGA) wedi'i gynnal gan y Tîm Rheoli yr Ystafell Rheoli ac mae'r Offeryn SGA ar Bwyllgor y Prif Gyngor Cenedlaethol (NFCC) wedi'i ddiweddaru. Mae'r SGA yn ein hysbysu o'r meysydd lle rydym yn Rhannol Gydymffurfio, Cydymffurfio a Heb Gydymffurfio. Y cam nesaf yw llunio cynllun i nodi newidiadau a sut i'w gweithredu yn amgylchedd yr Ystafell Reoli, gan sicrhau aliniad â gofynion Canllawiau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Criwiau Tân Gweithredol. Mae'r Tîm Rheoli yr Ystafell Rheoli yn parhau i fynychu cyfarfodydd Canllawiau Sefydliadau Cenedlaethol gyda'r Tîm Ymateb, a hefyd yn genedlaethol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill er mwyn canfod arfer gorau.



Ein Hegwyddor Amgylchedd

Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru gydnerth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru iachach



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Adolygu eitemau stoc a datblygu arferion gwaith er mwyn lleihau gwastraff.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r holl eitemau a gedwir yn y Storfeydd - bydd hon yn dasg barhaus, gyda chynlluniau i fonitro symudiad eitemau.

Cwblhawyd adolygiad stoc yn 'Uned 8b, Conwy' ac mae'r holl eitemau nad ydynt yn stoc bellach wedi'u tynnu.

Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r system TG stoc ac mae cydweithio wedi digwydd gydag adrannau eraill i sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu cadw.

Mae heriau gyda staffio o fewn yr adran wedi golygu nad yw'r weithred hon wedi symud ymlaen fel y cynlluniwyd.

Amcan 2: Datblygu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy.

Mae gwaith tuag at y camau hwn yn parhau i fod yn y camau cynnar a bydd y gwaith yn parhau i'r flwyddyn nesaf.

Amcan 3: Cyflwyno'r seilwaith gofynnol er mwyn i'n fflyd o gerbydau diesel redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO), dewis amgen cynaliadwy heb ddim allyriadau carbon Cwmpas 1.

Aeth copi o Gynllun Datgarboneiddio'r Fflyd i aelodau'r Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth yn bwriadu dileu allyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o gludiant.

Amcan 4: Ehangu'r rhwydwaith Mannau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) presennol ar draws ein hystad.

Dechreuodd y Gwasanaeth dreial o ganiatáu i staff sy'n gyrru eu cerbydau trydan neu hybrid plug-in eu hunain eu gwefru mewn gorsafoedd tân. Roedd y treial yn agored i unrhyw weithiwr, fel rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth i helpu cydweithwyr i symud i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Y gofynion oedd gosod ap Clenergy EV ar ffôn symudol, ac yna bydd cod yn cael ei gyhoeddi sy'n caniatáu mynediad i'r rhwydwaith gwefrydd EV, lle byddwch yn gallu gwefru'ch cerbyd. Bydd y gost fesul cilowat awr yn cael ei osod ar y pris y mae'n ei gostio i'r Gwasanaeth.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i fonitro cyfleoedd cyllido grant wrth iddynt godi.

Amcan 5: Parhau i ol-osod deunydd insiwleiddio yn adeiladau ein hystad.

Cwblhawyd y gwaith hwn yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod. Cynhaliwyd arolwg o'n hystad i benderfynu lle roedd gwagle to heb inswleiddio, ac roedd gan y cyfleusterau inswleiddio ym mhob lleoliad a nodwyd. Nid ydym yn credu bod unrhyw sgôp ar gyfer gwaith pellach o'r natur hon.

Amcan 6: Datblygu cynlluniau ac archwilio cyfleoedd ariannu i leihau allyriadau carbon o'n hadeiladau i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Allyriadau Sero Net 2030.

O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth liniaru'r ôl troed carbon gweithredol y mae'n ei gynhyrchu erbyn 2030.

Adolygwyd cynllun Datgarboneiddio Fflyd gan aelodau'r Awdurdod yn y cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2024, a' r mesur mwyaf nodedig oedd cynnig i ddisodli diesel gyda biodanwydd cynaliadwy, Olew Llysiau wedi'u Hydro-drin (HVO). Yn dilyn treial llwyddiannus, mae tanc storio peilot a dosbarthwr wedi'u defnyddio yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy, gyda deunaw safleoedd eraill wedi'u nodi i ddilyn. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig newidiadau mewn caffael ceir a faniau, yn ogystal â phatrymau teithio staff.

Amcan 7: Monitro ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar ein hallbwn carbon ar nwyon Tŷ Gwydr mewn perthynas ag ynni, dŵr a gwastraff.

Cyflwynwyd data i Lywodraeth Cymru fel y bwriadwyd yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn. Darparwyd data hefyd yn ystod chwarter tri ond cafodd ei ohirio oherwydd llwythi gwaith eraill.

Mae data wedi'i goladu hyd at fis Ionawr 2025 ar gyfer defnydd trydan a nwy.

Derbyniwyd yr anfonebau cyflenwyr ar gyfer Chwefror a Mawrth yn ystod Ebrill 2025, ac felly mae'r data hwn yn dal i gael ei goladu.

Bydd ffigurau defnydd llawn o drydan a nwy, ynghyd â'u costau cysylltiedig, yn cael eu darparu i'r Rheolwr Amgylcheddol a Newid Hinsawdd, a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n arwain ar hyn pan fydd yr holl ddata wedi'i dderbyn gan yr adran Cyfleusterau. Disgwylir i hyn fod ym mis Mai 2025.



Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion sector a gasglwyd yn lleol.

DANGOSYDDION STATUDOL:	2024-25	
	Rhif	Cyfradd
Tanau yr aethpwyd atynt	1,804	26.07
Galwadau diangen yr aethpwyd atynt	3,264	47.17
Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd	255	3.69
Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt	1,166	16.85
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth		
Marwolaethau ac anafiadau tân	49	7.08
Marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol	45	6.50
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth		
Tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol	308	87.01%
Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt		

Cyflwynwyd dangosyddion sector ar gyfer 2015 a chytunwyd i gael eu casglu a'u rhannu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

CYMRU GYFAN	2024-25					
DANGOSYDDION SECTOR:	GTA Gogledd Cymru		GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru		GTA De Cymru	
	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd
Tanau bwriadol	538	7.77	1,516	16.62	3,820	24.48
Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys)	1,266	18.30	1,499	16.43	1,588	10.18
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth						
Marwolaethau yn gysylltiedig â thân	3	0.43	4	0.44	9	0.58
Anafiadau wedi'u hachosi gan dân	46	6.65	42	4.60	46	2.95
Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau	2	0.29	2	0.22	8	0.51
Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn	0	0.00	0	0.00	1	0.06
tanau bwriadol mewn anheddau	21	3.03	33	3.62	32	2.05
Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau	2	0.29	3	0.33	2	0.13
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth						
Tanau cartref	354	10.58	447	10.15	631	8.93
Tanau damweiniol yn y cartref	338	10.11	412	9.35	582	8.24
Tân bwriadol mewn cartrefi	16	0.48	35	0.79	49	0.69
Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi	1,600	47.84	1,601	36.35	2,434	34.46
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi						
Tanau mewn adeiladau annomestig	144	4.23	131	3.20	261	4.99
Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig	324	9.53	656	16.01	3,597	68.73
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig						
Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod	44	12.43%	212	47.43%	215	34.07%
As Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt						



Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2024-25

n ystod 2012, datblygodd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru Siarter Cymru gyfan ar y cyd i sicrhau, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, y gallant ddisgwyl cael cymorth a chefnogaeth i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Dylent hefyd allu disgwyl, os bydd tân yn cynnau, y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

1. Cymryd yr awenau wrth leihau nifer y tanau mewn cartrefi sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad brys 999 i fynychu tân mewn cartref.
3. Mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau cartref yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2024-25.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd yn erbyn y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigurau o fewn y fframwaith naratif.

1. Byddwn yn arwain y gwaith o leihau nifer y tanau sy'n digwydd mewn cartrefi a lleihau eu heffaith ar bobl.



Rydym wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gynnal y gostyngiad yn nifer yr achosion o danau mewn cartrefi ac yn gysylltiedig, y pobl sy'n cael eu hanafu o ganlyniad o hyn, yng Nghymru.

Yn 2024-25 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ar sut y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal yn cynnwys cyflwyno 20,021 o Archwiliadau Diogel ac Iach i breswylwyr ac yn ogystal â hyn cafodd 11,563 o blant a phobl ifanc sgwrs diogelwch tân dros y cyfnod hwn.

Yn ystod 2024-25 aethom i 338 o danau damweiniol mewn cartrefi. O ganlyniad i'r tanau hynny, cofnodwyd 6 marwolaeth, a cafodd 21 o bobl anafiadau difrifol.

Mae nifer y tanau damweiniol yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub wedi aros yn gyson, gyda 338 o danau damweiniol hefyd yn bresennol yn ystod 2023-24.

Mae nifer y tanau damweiniol yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub yn parhau i fod ar eu lefel isaf yn y pum mlynedd diwethaf.

2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad 999 frys i fynd i dân mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999/112 brys i ni.

Mae ein hystafell reoli tân brys yn parhau i fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o un ystafell reoli i'r llall os bydd aflonyddwch difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un amser.



Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad a adroddir a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynychu'r digwyddiad.

Yn 2024-25, gwnaethom ddelio â chyfanswm o 14,535 o alwadau 999/112 brys. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am achosion o danau mewn cartrefi i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 83.3% o achlysuron a rhwng 91 a 120 eiliad ar 7.8% o achlysuron.

Fodd bynnag, gwyddom nad cyflymder trin galwadau - er yn bwysig – yw'r unig ffon fesur berthnasol. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a all, er enghraifft,

fod yn anghyfarwydd â'r ardal y maent ynddi, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgil bwysig arall yw cydnabod pan fo galwr yn cam-drin y system 999/112 drwy honni fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n atal lleiafrif o bobl sy'n camdrin llinellau 999 ac yn cadw ein gwasanaethau ac adnoddau rhag gyrraedd pobl a allai fod mewn sefyllfa wirioneddol sy'n peryglu bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian, ac yn peri mwy o berygl i weddill y gymuned.

Yn 2024-25, cawsom 99 o alwadau diangen maleisus. Mewn 35.4% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly roedden yn osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen.

3. Byddwn yn mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a gyda'r offer priodol i ddelio â nhw.



Unwaith y byddwn wedi ateb y galwad brys 999/112 a dosbarthu'r adnoddau mwyaf priodol i wneud iawn am y presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel ac yn meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Gellir dod o hyd i amseroedd ymateb yma. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél cyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. O ganlyniad, gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/gwledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn cartref yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac o gael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd tân mewn cartref wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod ein criwiau diffodd tân mewn sefyllfa briodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân gydag offer amddiffynnol personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn heini ac yn iach yn weithredol ac rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio fel mater o drefn bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn unol â gweithdrefnau diffodd tân derbyniol.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2024-25, mynychodd ein criwiau 1,804 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o eiddo ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 6 aelod o staff gweithredol anaf.



4. Byddwn yn delio â thanau mewn cartrefi yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân sydd yn brofiadol ag yn cymwys i sicrhau eu bod ganddyn nhw'r sgiliau cywir, y wybodaeth, yr offer diffodd tân a'r cymorth gorchymyn fel y byddant wedi eu paratoi'n llwyr, beth bynnag fo amgylchiadau'r digwyddiad tân.

Yn 2024-25, o'r holl danau mewn cartrefi a aethpwyd atynt, roedd 87% wedi'u cyfyngu yn llwyddiannus i'r ystafell wreiddiol, heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu allan i reolaeth y criwiau oedd yn mynychu, megis faint o amser y byddai'n ei gymryd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân y lleolwyd y cartref, rydym yn dal i ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i offer, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd o ddifrif ddelwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar rinweddau a phriodoleddau personol ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddi gweithredol a rheoli.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad i werthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwelliant.

5. Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i ffrindiau a'i deulu agos. Am y rheswm hwn, nid yw rôl y gwasanaeth tân ac achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan gafodd y tân ei ddiffodd a phan gyfrifwyd am bawb.



Ym mhob achos, bydd achos y tân yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn ynghylch sut a ble y cychwynnodd y tân, i ba raddau y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau i gredu bod tân wedi'i gynnau'n fwriadol mewn cartref, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar drywydd hyn.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannwyd gan nifer o wahanol denantiaid, gallai'r ymchwiliadau ôl-digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, efallai y byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd diogelwch cymunedol.

neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd trwy Archwiliadau Diogel ac lach am ddim.

6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol i wneud hynny.



Rydym bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad mwy manwl a fforensig i ganfod achos mwyaf tebygol y tân.

Yn 2024-25, cofnodwyd bod achos anhysbys i 19 o danau mewn cartrefi.

Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu hamau o gynnau tân mewn cartref yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er, mewn rhai achosion, efallai nad dyma'r unig gamau gweithredu sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gychwyn gan blentyn ifanc neu gan berson sy'n ceisio lladd ei hun.

Yn 2024-25, aethom i 354 o danau mewn cartrefi, a chanfuwyd bod 16 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a rennir yn dod o dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y fangre honno (fel y landlord neu'r rheolwr safle) fod â threfniadau diogelwch tân da ar waith.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y person cyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a risg y drosedd.

Yn 2024-25, nid ddaeth yr un hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau gwahardd, rhybuddion ffurfiol neu daeth erlyniadau i ben yn ystod y flwyddyn.

7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd yn erbyn amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith beunyddiol o redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n digwydd yn cynnwys:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau.
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth.
- Dysgu o'n profiadau, megis o sesiynau briffio ôl-digwyddiad, adroddiadau ar ddamweiniau, neu 'Damweiniau agos'.
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arfer da, a dysgu o ymchwil a waned.
- Cymryd cyfleoedd i ddysgu gan, a chyda sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol.
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis trwy brosesau rheoli parhad busnes.
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol.
- Datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff yn barhaus.
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol fel ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg.



Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni

Archwilio Cymru – Llywodraethu

Mae eu hadroddiad i'w weld yma.

Gwybodaeth Arall

Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Rhif Drwydded C2010002320.

Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon:

- Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru (2021)

Ymyrraeth os bydd methiant neu fethiant posibl i gydymffurfio:

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrraeth:

- o dan adran 22 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrraeth yn berthnasol.
- o dan adran 29 o Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, i gydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

Ymgynghoriadau

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau cyhoedd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau a'i amcanion strategol.

Rhestrir ymgynghoriadau cyhoeddus isod:

Teitl	Ymgynghori	Cyhoeddi	Am flwyddyn
Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26	Hydref 2024	Gwanwyn 2025	2025-26
Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29	Gwanwyn 2024	Haf 2024	2024-29
Adolygiad Gwasanaeth Brys	Haf/Hydref 2023	Gaeaf 2023	2023-24

Rhestrir arolygon staff diweddar isod:

Teitl	Ymgynghori	
Adolygiad Diwylliannol Crest Adbisory	Hydref 2024	23 Awst - 11 Hydref 2024
Arolwg Teulu Tân	Hydref 2023	18 Medi - 16 Hydref 2023
Arolwg Teulu Tân	Hydref 2021	18 Hydref – 08 Techwedd 2021



Geirfa a Diffiniadau

Tanau

Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

Prif Danau

Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.

Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

Tanau Eilaidd

Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.

Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

Tanau Simnai

Mae'r rhain yn danau mewn adeiladau a feddiannir lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

Tanau yn yr awyr agored

Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth pedwar cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am chwe awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.

Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)

Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:

- argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;
- trychinebau mawr;
- digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;

- trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

Marwolaethau Tân (cysylltiedig â thân)

Pan fo marwolaeth person yn cael ei phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Mae yna achosion achlysurol hefyd lle daw'n amlwg wedi hynny nad y tân oedd achos y farwolaeth. Felly, mae'r ffigurau hyn yn destun adolygu.

Anafiadau tân

Er mwyn sicrhau cysondeb ar ôl mis Ebrill 2009 ledled y DU, cofnodir anafiadau tân o dan bedwar categori difrifoldeb:

- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, ac mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n ddifrifol.
- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai bach.
- Rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ond nid oedd angen triniaeth bellach.
- Cafodd archwiliad rhagofalus ei argymell - cafodd y person ei anfon i'r ysbyty neu fe'i
- cynghorwyd i weld meddyg fel rhagofal, ond heb unrhyw anaf na gofid amlwg.

Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)

Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at leoliad gan gredu bod yna ddigwyddiad, ond wrth gyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.

Sylwer: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi nôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei hystyried fel un ag aethpwyd ato ac nid oes angen adrodd amdano.

Maleisus

Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys amcanion bwriadol a rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.

Bwriad Da

Mae'r rhain yn alwadau a wneir yn ddidwyll yn y gred y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig.

Larwm Tân Awtomatig (LTAau)

Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys offer larwm yn cychwyn yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn canu a bod person wedyn yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, heb unrhyw 'feirniadaeth', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.

Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn, neu sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael

- Mewn fformatau papur ac electronig.
- Yn Gymraeg a Saesneg.
- Fel taflen gryno o'r pwyntiau allweddol.
- Mewn fformatau hygyrch trwy ein gwefan.

Ysgrifennwch atom	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Ffordd Salesbury Parc Busnes Llanelwy Sir Ddinbych LL17 0JJ
Ffoniwch ni	01745 535 250
Anfonwch e-bost atom	Corporateplanning.helpdesk@tangogleddcymru.llyw.cymru
Ewch i'n gwefan	www.tangogleddcymru.llyw.cymru
Neu dilynwch ni ar	**X (Twitter):** @northwalesfire **Facebook:** www.facebook.com/northwalesfireservice **Instagram:** @northwalesfire

Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig

This document is available in English

Eitem Agenda 8

Adroddiad i	**Y Panel Gweithredol**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid**
Pwnc	**Monitro Perfformiad, 1 Ebrill 2025 – 30 Mehefin 2025**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i aelodau'r Panel Gweithredol (y Panel) ar berfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Mehefin 2025 (chwarter 1 2025/26). Mae'r mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac maent yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae nifer y digwyddiadau tân wedi cynyddu i 712 (417 yn 2024/25). Er bod hyn yn gynnydd cyffredinol o 70.7%, mae'r cynnydd ar gyfer prif danau yn 24% a thanau eilaidd yn 130%. Mae'r cynnydd mewn tanau eilaidd yn adlewyrchu'r tywydd sych a gafwyd, gyda thanau yn yr awyr agored yn sbarduno'r cynnydd.

3 Mae tanau damweiniol mewn anheddau wedi cynyddu ychydig y chwarter hwn o 5.8% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, â'r Gwasanaeth yn mynd i gyfanswm o 73 o ddigwyddiadau.

4 Gostyngodd y presenoldeb mewn galwadau gwasanaeth arbennig 8% o un flwyddyn i'r llall i 306, a oedd yn cynnwys 67 o wrthdrawiadau ar y ffordd.

5 Mae gwaith yn parhau i gefnogi ein cymunedau gyda chyfanswm o 4,722 o archwiliadau diogel ac iach wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod. Er bod hwn yn ostyngiad o 5.7% mewn termau cyffredinol o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae'r pwyslais yn parhau i fod ar ymweliadau blaenoriaeth ganolig ac uchel. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn parhau i fod yn ymrwymedig i addysg drwy ymweliadau ysgolion, darparu cwrs Ffenics ac ymyriadau unigol i fynd i'r afael â chynnau tanau.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad

CEFNDIR

7 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod weithio i leihau risg a mynd i'r afael â diogelwch ei gymunedau ac i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn. Gan ganolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, adroddir ar y perfformiad bob chwarter, gyda phwyslais ar risgiau allweddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

GWYBODAETH

8 Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Mehefin 2025 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26, a gwneir cymariaethau â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2024/25).

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'n dangos perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-26.
Cyllideb	Mae'n caniatáu i weithgareddau a risgiau allweddol gael eu hystyried yn rhan o'r broses pennu cyllideb.
Cyfreithiol	Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos y modd y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant.
Staffio	Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 25/26 ac yn cynnwys diweddariad ar faterion staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau.
Risgiau	Mae'n dangos sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei ddarpariaeth yng nghyd-destun risgiau cymunedol.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2025 – Mehefin 2025

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE **PREVENTION** **PROTECTION** **RESPONSE** **ENVIRONMENT**

Cynnwys

Ein Hegwyddor Pobl **2**

1 Absenoldeb Salwch 2

1.1 Pob Absenoldeb Salwch 2

1.2 Salwch Tymor Byr 3

1.3 Salwch Hirdymor 5

1.4 Cymhariaeth Cymru Gyfan 6

Ein Hegwyddor Atal **7**

2 Pob Digwyddiad 7

3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant 8

4 Tanau Damweiniol mewn Anheddau 10

5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau 11

6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau 13

7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau 14

8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig 16

9 Archwiliadau Diogel ac Iach 18

Ein Hegwyddor Diogelu **21**

10 Galwadau Diangen 21

11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol 22

12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai 23

..... 23

13 CEF Berwyn 23

Ein Hegwyddor Ymateb **25**

14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad 25

15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd 26

16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg 27

Ein Hegwyddor Amgylchedd **28**

16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau 28

17 Tanau gwyllt 29

18 Llifogydd 29

Geirfa **30**

Ein Hegwyddor Pobl

1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, ar gyfer GTAGC, oherwydd yr holl absenoldeb salwch wedi cynyddu o 4.51% yn ystod chwarter pedwar i 5.12% yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd 946 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 30/06/2025, sy'n gynnydd o 35 o bobl o'r un cyfnod yn 2024/25; fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd yr holl absenoldeb salwch fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos gwelliant parhaus mewn lefelau absenoldeb salwch.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (YTD) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

1.1 Pob Absenoldeb Salwch




Er bod nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb yn chwarter un 2025/26 wedi cynyddu o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, mae nifer yr achosion cyffredinol yn parhau i fod ar ei isaf dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol ychydig yn uwch na'r dyddiau a gollwyd yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd yn nifer y rhai a gyflogir.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

1.2 Salwch Tymor Byr

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb tymor byr yn 1.12% o'r holl amser a gollwyd.

Roedd Salwch Tymor Byr yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol yn cyfateb i 1.13% o'r amser a gollwyd, sy'n ostyngiad o'i gymharu ag 1.47% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod chwarter un y flwyddyn flaenorol.



(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a bod Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol.)

Er bod nifer yr achosion o salwch tymor byr gan weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn a'r system dyletswydd ar alwad wedi gostwng yn chwarter un o chwarter pedwar, mae nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un wedi cynyddu ar gyfer y ddau. Roedd 37% o'r achosion o salwch tymor byr gan weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn yn absenoldeb cyhyrysgerbydol, gyda'r absenoldebau hyn yn para 10.2 diwrnod calendr ar gyfartaledd fesul gweithiwr.

Yn Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaethau Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, rhesymau cyhyrysgerbydol oedd 29% o'r holl resymau absenoldeb salwch, gyda rhesymau cyhyrysgerbydol yn rheswm uchaf dros bob absenoldeb i weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn (32%) a'r system dyletswydd ar alwad (35%).

Adroddwyd bod 15% o'r achosion o salwch tymor byr yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol oherwydd gastroenteritis a 7% yn ychwanegol oherwydd rhesymau gastroberfeddol. Roedd y rheswm hwn dros absenoldeb yn uchel yn ystod chwarter un a chwarter dau y flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau i fod yn rheswm cyffredin am salwch tymor byr. (Mae gastroenteritis yn cyfeirio at lid y stumog a'r coluddyn a achosir yn aml gan haint, tra bod gastroberfeddol yn disgrifio'r llwybr treulio cyfan)

Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl nifer yr achosion)

	Rheswm am Absenoldeb	Achosion	Amser a gollwyd %
1	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff	12	13.67%
2	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff	12	13.57%
3	Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau'r cefn a'r asgwrn cefn	9	8.32%

Mae 'Amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion

Mae'r tri phrif reswm am absenoldeb tymor byr yn seiliedig ar nifer yr achosion yn ystod chwarter un 2025/26 wedi newid o'r rhesymau yn ystod 2024/25, ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â rhesymau cyhyrysgerbydol yw'r tri phrif reswm. Rhesymau annwyd/ffliw oedd y rheswm uchaf am absenoldeb tymor byr trwy gydol y flwyddyn 2024/25, ond dim ond 3% o'r amser a gollwyd i absenoldeb yn ystod chwarter un yn y flwyddyn bresennol oedd am y rheswm hwn.


Mae amser a gollwyd oherwydd absenoldeb am resymau cyhyrysgerbydol aelodau uchaf ac isaf y corff yn cyfrif am 13.67% ac 13.57%, yn y drefn honno, o'r holl salwch tymor byr yn ystod chwarter un. Roedd 76% o'r holl salwch tymor byr cyhyrysgerbydol yn gysylltiedig â gweithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn a'r system dyletswydd ar alwad.

Er y bu cynnydd nodedig mewn rhesymau absenoldeb cyhyrysgerbydol tymor byr yn ystod chwarter un, nodir hefyd bod nifer y gweithwyr sy'n manteisio ar y triniaethau ffisiotherapi a ddarperir gan y Gwasanaeth hefyd wedi cynyddu oddeutu 50% yn ystod chwarter un o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

1.3 Salwch Hirdymor

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb hirdymor yn 4.23% o'r amser a gollwyd.

Roedd salwch hirdymor yn 3.99% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter un, o'i gymharu â 3.49% yn chwarter pedwar a 3.78% yn chwarter un y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb hirdymor yn ystod chwarter un wedi cynyddu o'i gymharu â chwarter pedwar, tra bod nifer yr achosion wedi gostwng neu aros ar lefelau tebyg yn gyffredinol, ac eithrio achosion mewn rolau corfforaethol, sydd wedi cynyddu yn ystod chwarter un.



Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl nifer yr achosion)

	Rheswm am Absenoldeb	Achosion	Amser a Gollwyd %
1	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff	14	20.64%
2	Iechyd Meddwl - Straen	12	17.64%
3	Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd	7	10.6%

Mae 'Amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion

Mae'r tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor wedi aros yn debyg yn chwarter un 2025/26 i'r hyn a gafwyd yn ystod 2024/25.

Cyhyrysgerbydol – Mae absenoldeb oherwydd aelodau isaf y corff yn parhau i fod yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion ac amser a gollwyd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond, oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi gwaethygu'r anaf neu achosi anaf arall. Roedd absenoldeb oherwydd unrhyw reswm cyhyrysgerbydol yn ystod chwarter un wedi para 50.3 diwrnod calendr fesul gweithiwr ar gyfartaledd. Mae gweithwyr yn cael eu hystyried ar gyfer dyletswyddau wedi'u haddasu lle bo hynny'n berthnasol, i gynorthwyo dychwelyd i'r gwaith ac fel llwybr i ddychwelyd i ddyletswyddau llawn.

Mae absenoldeb iechyd meddwl yn cael ei gofnodi ar wahân er mwyn nodi'r gwahanol resymau am les meddyliol gwael - straen, gorbryder, rhesymau eraill (sy'n cynnwys ffobia, profedigaeth, trawma/Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD)) ac iselder yw'r rhesymau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd o fewn y Gwasanaeth. Yn gyffredinol, yn ystod 2024/25, roedd yr holl absenoldeb iechyd meddwl yn 19% o'r holl achosion absenoldeb; mae hyn yn is na'r 23% a adroddwyd yn adroddiad Salwch y Gwasanaethau Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

Mae 'absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl - straen' yn parhau i fod ymhlith y tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor ar gyfer chwarter un. Mae nifer yr achosion o salwch hirdymor oherwydd straen wedi cynyddu eto i 12 yn ystod chwarter un, o'i gymharu â saith yn ystod chwarter pedwar; fodd bynnag, nid yw'r dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un yn uwch na'r dyddiau a gollwyd yn ystod chwarteri dau a thri 2024/25.

Er bod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn achosion iechyd meddwl, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad, fel yr adroddwyd gan fwletin ystadegau misol y GIG. Mae nifer yr oedolion sy'n cael cymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Mae cefnogaeth yn cael ei darparu i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, y rhaglen cymorth i weithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl a gwasanaethau penodol eraill.

1.4 Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y dyddiau shifft cyfartalog a gollwyd fesul person ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru gyfan oedd 11.62 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff amser cyflawn mewn lifrai, 17.72 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff yr Ystafell Reoli, ac 14.76 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff anweithredol.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddyddiau shifft a gollwyd fesul person oherwydd absenoldebau hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

Nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd oherwydd salwch	GTADC	GTACGC	GTAGC
Staff amser cyflawn mewn lifrai	13.54	9.54	**9.02**
Staff yr Ystafell Reoli	23.70	16.66	**12.19**
Staff anweithredol	21.24	10.40	**10.09**

Sylwer, mae'r data Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gyda'r fersiwn diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2024, ac mae'n adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol yn unig ac nid yw'n cynnwys data am staff ar alwad.

Ein Hegwyddor Atal


2 Pob Digwyddiad

Pob Digwyddiad – Aethpwyd i **1,809** o ddigwyddiadau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n gynnydd o 17.0%. Mae hyn hefyd 13.9% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 1,589.

Tanau – **712**, cynnydd o 70.7%, a 33.3% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 534.


Galwadau Diangen - **791**, gostyngiad o 0.8%, ond 9.3% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 724.

Galwadau Gwasanaeth Arbennig - **306**, gostyngiad o 7.8%, a 7.6% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 331.




3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd i **712** o danau: cynnydd o 70.7% o 417.



	Damweiniol	Bwriadol	Cyfanswm	+/-
Prif Danau	207	46	**253**	**24.0%**
Tanau Eilaidd	286	160	**446**	**129.9%**
Tanau Simdde	13	0	**13**	**-31.6%**



Camau gweithredu hyd yma:

Ar ddiwedd chwarter un, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gyfanswm o **4,722** o Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae ymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar wella nifer ac ansawdd yr atgyfeiriadau trwy gydweithio cryfach ag asiantaethau partner.

Er mwyn gwella'r gwaith o dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân, mae GTAGC wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cynnal Gofalwyr, Dŵr Cymru, SP Energy, Gofal a Thrwsio, Dementia Support Services, Cymorth i Ddioddefwyr, a Grŵp Llywio Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r sesiynau ymgysylltu pwrpasol hyn wedi cefnogi cyflwyno gweithgareddau atal mwy effeithiol sy'n seiliedig ar risg.

O ran ymgysylltu ag ieuenctid:

- Cafodd **1,520** o blant a phobl ifanc addysg diogelwch tân yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er gwaethaf llai o gapasiti oherwydd bod un Addysgwr ar absenoldeb mamolaeth.
- Cyflwynwyd **pedwar** cwrs Ffenics, gan ymgysylltu â **33** o bobl ifanc, gyda **29** yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus—gan ddangos cyfradd gref o ran cadw, ac effaith gref hefyd.

Cyfrannodd GTAGC hefyd at ddiogelwch cymunedol ehangach trwy:

- Ddiwrnod aml-asiantaeth ym Mhenrhosgarnedd, yn cefnogi ymgysylltu a gweledded lleol.
- Cynllunio parhaus gyda Heddlu Gogledd Cymru o dan y fframwaith Clirio, Cynnal, Adeiladu (Clear, Hold, Build) i fynd i'r afael â bregusrwydd a gwydnwch cymunedol.

Mae ymgyrchoedd ar gyfer y cyhoedd wedi cael eu defnyddio'n strategol ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar:


- Ddiogelwch yn y Gegin
- Diogelwch yn yr Haf
- Diogelwch Barbeciws Tafladwy

Nod yr ymgyrchoedd hyn yw lleihau risgiau tanau tymhorol a risgiau tanau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad trwy negeseuon wedi'u targedu ac addysg gymunedol.

4 Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Aethpwyd i **73** o danau damweiniol mewn anheddau, cynnydd o 5.8% o 69.

Er bod hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n bwysig nodi bod hyn yn dal i fod 8.8% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 80, ac mae hefyd yn sylweddol llai na nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt yn ystod y blynyddoedd ariannol cyn 2024/25.



5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod y chwarter. Y mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau hylosg yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', a ddangosodd gynnydd o 110.0% o 10 i **21**.

Ymhlith y prif achosion eraill a welodd gynnydd neu a arhosodd yn gyson â'r un cyfnod y llynedd roedd:

- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal', a gynyddodd 75.0% o bedwar i **saith**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu ddyfais (ffynhonnell gwres)', a arhosodd yn gyson ar **chwe** digwyddiad.
- 'Nam ar offer neu declyn', a arhosodd yn gyson ar **bum** digwyddiad.

Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y chwarter hwn. Roeddent yn cynnwys:

- 'Coginio – arall', a ostyngodd 30.8% o 13 i **naw**.
- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a ostyngodd 20.0% o 10 i **wyth**.
- 'Arall', a ostyngodd 16.7% o chwech i **bump**.



Camau gweithredu hyd yma:

Mae'r tîm Atal yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i ddatblygu negeseuon cyfryngau cymdeithasol a fideos byr sy'n canolbwyntio ar risgiau gosod eitemau yn rhy agos at ffynonellau gwres. Mae'r holl Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref wedi cael eu briffio i hysbysu ac addysgu preswylwyr, ac mae Penaethiaid Gorsafoedd wedi rhaeadru'r neges i griwiau gweithredol.

Ymgyrchoedd a Mentrau
Dosbarthwyd negeseuon allweddol trwy GovDelivery i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru.

Ymgyrch Diogelwch Coginio (21 – 27 Ebrill)
Ymgyrch yn canolbwyntio ar hyrwyddo arferion coginio diogel.

Rhoddwyd canllawiau ychwanegol i orsafoedd tân ynghylch y duedd sy'n dod i'r amlwg o gamddefnyddio Ffriwyr Aer. Darparwyd gwybodaeth trwy Archwiliadau Diogel ac Iach.

Wythnos Gweithredu ar Ddementia
Cyfres o weithgareddau ac ymgysylltiadau yn ystod Wythnos Gweithredu ar Ddementia:

Cymryd rhan mewn Taith Gerdded Dementia, meithrin rhyngweithio â grwpiau a gofalwyr dementia lleol a hyrwyddo adnoddau diogelwch tân wedi'u teilwra i anghenion pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Wythnos Gofalwyr
Ymgysylltu â Carers Wales i godi ymwybyddiaeth o Archwiliadau Diogel ac Iach ac ymyriadau ar gyfer gofalwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Ymgyrch Diogelwch yr Haf
Ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau a llwyfannau digidol gan ganolbwyntio ar risgiau diogelwch tymhorol gyda negeseuon wedi'u targedu ynghylch diogelwch tân a barbeciws tafladwy.

Camau Gweithredu Pellach:


Mae ymgyrch goginio arall wedi'i chynllunio ar gyfer mis Medi.

Ymgyrchoedd parhaus wedi'u targedu yn seiliedig ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd.

6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Cafodd **16** o bobl anafiadau mewn **13** tân damweiniol mewn annedd. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y chwarter.

Mae nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i dân damweiniol mewn annedd wedi cynyddu 23.1%. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Anheddau lle cofnodwyd anaf hefyd wedi cynyddu 18.2%.



O'r **16** a anafwyd, cafodd **12** (75.0%) eu 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau tocsig; mygu', roedd gan **un** 'anawsterau anadlu (ac eithrio 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau tocsig; mygu')', cafodd **un** fân losgiadau, ac roedd gan **un** 'gyfuniad o losgiadau ac wedi'i lethu gan nwy/mwg'. Cofnodwyd math o anaf yr **un** sy'n weddill fel 'Arall'.


7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Synwyryddion: roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **61** (83.6%) o'r tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt.

Roedd larymau'n weithredol ac wedi rhoi rhybudd mewn **45** (61.6%) o'r tanau damweiniol mewn anheddau.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **12** o'r tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt.

O'r 73 o danau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt, roedd **66** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **7** heb eu cyfyngu.



Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi

Mae gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriw Dydd bellach yn darparu dwy awr o weithgareddau atal wedi'u targedu gan ddefnyddio data Exeter y GIG i nodi aelwydydd gyda phreswylwyr 65+, 75+ ac 80+ oed, gan alluogi cynnal archwiliadau diogel ac iach penodol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Mae gwaith wedi'i dargedu mewn ardaloedd ar ôl digwyddiadau (*hot spotting*) yn parhau i fod yn sail i lefelau ymateb wedi'u teilwra.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch tân, ffyrdd, a dŵr ar draws llwyfannau cyfryngau.


Ymgysylltu Addysgol – Ch1:

- Ysgolion Cynradd: **10** ymweliad, **490** o ddisgyblion
- Criw Craidd: **6** digwyddiad, **790** o ddisgyblion
- Cylch Meithrin: **3** ymweliad, **70** o blant
- Gwasanaeth Tanau Bwriadol: **1** sesiwn, **170** o ddisgyblion
- Ffenics: **4** cwrs, **33** yn astudio (**29** wedi cwblhau)
- Ymyriadau Cynnau Tân: **36** o atgyfeiriadau
- Pentre Peryglon: Ymgysylltwyd â **1,850** o bobl ifanc a **631** o ymwelwyr cyhoeddus trwy senario Diogelwch yn y Cartref.

8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

Aethpwyd i gyfanswm o **306** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd). Mae hyn yn ostyngiad o 7.8%.

Cafwyd cynnydd bach yn nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd iddynt, sef **67** o ddigwyddiadau.



Roedd y prif gategorïau Galwadau Gwasanaeth Arbennig (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn cynnwys:

- **116** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 7.4% o 108.
- **31** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 19.2% o 26.
- **18** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' – cynnydd o 20.0% o 15.
- **10** digwyddiad 'Dim gweithredu (nid galwad ddiangen)' – arhosodd hyn yn gyson â chyfanswm chwarter un y llynedd.

Er gwaethaf hyn, roedd gan un categori **ostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt:

- **16** digwyddiad 'Rhyddhau o Lifft' – gostyngiad o 5.9% o 17.

Camau gweithredu hyd yma:

Cyflwynodd y tîm Atal naw sesiwn *Stori Olivia*, gan ymgysylltu â **274** o bobl ifanc 16–25 oed, gan gynnwys allgymorth yng Ngholeg Cambria a gwersylloedd hyfforddi Cadetiaid y Fyddin. Cydweithiodd y tîm hefyd â Heddlu Gogledd Cymru ar gyflwyno Marciau PRIME i wella diogelwch beicwyr a buont yn cyd-gyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth o gyflymder yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Cynhaliodd Ymgyrch Ugain **470** o ymgysylltiadau ar ochr y ffordd yn targedu goryrwyr 20mya, gyda **33** o erlyniadau. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ymestyn oherwydd canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Ymgysylltwyd â **35** o feicwyr modur mewn dwy sesiwn *BikerDown*, gan gwmpasu rheoli safle, cymorth cyntaf, ac atal damweiniau. Cefnogodd y tîm Ymgyrch Darwin/Apex a chynnal digwyddiad *Biker Brew* aml-asiantaeth yng Nghorwen, sy'n llwybr risg uchel o ran nifer y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Hyrwyddwyd ymgyrchoedd diogelwch dŵr (*#BeWaterAware, Arnofio i Fyw/Float to Live*) trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym Mangor. Cyflwynwyd hyfforddiant i geidwaid Pentre Peryglon a disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol y Garnedd.

Fe wnaeth yr ymgyrch diogelwch plant *Ble Mae'r Peryglon?/Spot the Dangers* godi ymwybyddiaeth o beryglon dŵr trwy sesiynau rhyngweithiol mewn ysgolion a grwpiau cymunedol.


9 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhawyd cyfanswm o **4,722** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **1,270** (26.9%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **684** (53.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **1,019** (21.6%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **73** (7.2% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **2,433** (51.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **76** (3.1% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.


Cafodd cyfanswm o **833** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn 17.6% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Bu gostyngiad o **5.7%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; fodd bynnag, bu cynnydd o **7.2%** yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, a chynnydd o **13.1%** yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd. Mae'r gostyngiad yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd felly i'w ystyried yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd.




Yn ystod chwarter un, cwblhawyd 90% o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach o fewn eu dyddiad cwblhau targed. Mae hyn yn cyfateb i 4,246 o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn ystod y chwarter.

Pob Archwiliad yn ôl Dyddiau Dros Gyrhaeddiad Targed



Archwiliadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gyrhaeddiad Targed



Camau gweithredu hyd yma:

Parhaodd staff Atal i gynnal sesiynau ymgysylltu â phartneriaid allanol er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau mwyaf penodol yr ydym yn eu cael ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae enghreifftiau o'r rhai yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod chwarter un yn cynnwys ymgysylltiad â Carers Wales.

Mae'r Adran Atal wedi newid rôl y Rheolwyr Partneriaethau, sydd wedi symud o fod yn gyfrifol am ardal i fod yn gyfrifol am swyddogaeth. Dyma'r swyddogaethau: rheoli Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, rheoli gweithgarwch partneriaethau ac ymgysylltu, a Diogelu.

Rhoddwyd gwybodaeth i orsafoedd ynglŷn â chofnodi preswylwyr risg uchel, canolig, ac isel ac Archwiliadau Diogel ac Iach yn gywir ac mae hyn wedi cael effaith ar y cofnodi.

Mae gorsafoedd amser cyflawn yn defnyddio data Exeter i dargedu'r rhai sy'n fwy agored i niwed h.y. 65 oed + wrth gynllunio gweithgareddau atal y gorsafoedd.

Mae'r staff Atal yn monitro pob digwyddiad ar CadView mewn cyfarfodydd bob tair wythnos i ganfod a yw Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal. Cymerir camau dilynol i sicrhau bod Archwiliadau Diogel ac Iach a/neu ymweliadau ychwanegol gan Weithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref yn cael eu cynnal yn ôl yr angen wedi pob digwyddiad.

Mae gwaith sicrwydd ansawdd wedi'i gynnal ynghylch Archwiliadau Diogel ac Iach i sicrhau bod arfer da wedi'i rannu â gorsafoedd amser cyflawn a chriw dydd.

Mae methodoleg newydd o gofnodi camau gweithredu a gymerwyd gan staff atal wedi'i chyflwyno i sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cymryd a'u cwblhau ar gyfer yr holl dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r holl ddigwyddiadau nodedig.


Mae criwiau amser cyflawn yn ymgymryd â dwy awr o weithgareddau atal er mwyn cyrraedd y targed o chwe Archwiliad Diogel ac Iach y dydd. Cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gorsafoedd a darparu gwybodaeth i'w galluogi i wneud gwaith rheoli perfformiad ar y targedau Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhelir gan griwiau dydd cyflawn.


Ein Hegwyddor Diogelu

10 Galwadau Diangen

Aethpwyd i gyfanswm o **791** o alwadau diangen, sy'n ostyngiad o 0.8%. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd iddynt ar draws pob math o eiddo.


Mae cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y digwyddiadau Galwadau Diangen Diffuant yr aethpwyd iddynt, gyda chynnydd o 34.8% wedi'i gofnodi o 264 i **356**. Er gwaethaf hyn, gellir gweld gostyngiad mewn galwadau diangen Maleisus, a ostyngodd 45.0% o 20 i **11**, a hefyd mewn larymau tân oherwydd digwyddiadau gydag Offer, a ostyngodd 17.3% o 513 i **424**.






11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol

Derbyniwyd **418** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd pob un ac eithrio **un** yn ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.




12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **119** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai. Er nad dyma'r nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod chwarter un yn y pum mlynedd ariannol diwethaf, yn y chwarter hwn y gwelwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.



13 CEF Berwyn

Cafodd **29** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yn CEF Berwyn, ac aethpwyd i **18** o'r rhain - mae hyn 125.0% yn fwy na'r llynedd.



Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai

Er y bu ymchwydd mewn galwadau mewn ysbytai dros y cyfnod adrodd, mae nifer y galwadau yr aethpwyd iddynt yn gymharol sefydlog ac yn dangos bod y brysbennu ar y safle yn gweithio. Mae'r cydweithio parhaus rhwng partneriaid yn dwyn ffrwyth.

Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn

Unwaith eto, cafwyd ymchwydd o alwadau a thanau yr aethpwyd iddynt oherwydd problem hysbys gyda fêps tafladwy yn cael eu defnyddio at ddibenion tanio. Bydd y broblem hon yn cael ei lleihau yn sgil cyflwyno fêps na ellir ymyrryd â hwy – mae'r broses o'u cyflwyno wedi cael ei chyflymu er mwyn gallu ei dechrau yn ystod mis Awst oherwydd yr ymchwydd mewn digwyddiadau.

Ein Hegwyddor Ymateb

14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System Dyletswydd Ar Alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad ar Gyfartaledd 06:00-18:00				
Diwrnod/Mis	Ebrill	Mai	Mehefin	Ch1
Llun-Gwener	6	6	5	6
Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)	14	14	12	13
Cyfartaledd Cyffredinol	**9**	**9**	**7**	**8**

Sylwch fod y nifer sydd ar gael wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer dechreuwyr ac ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod y chwarter, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd.

Chwarter	Dechreuwyr	Ymadawyr	Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter	Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)
Ebr 2024 - Meh 2024	19	17	466	418
Ebr 2025 - Meh 2025	16	10	493	431
+/-	**-3**	**-7**	**+27**	**+13**


Dechreuwyr – nifer dechreuwyr y System Dyletswydd Ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

Ymadawyr - nifer ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn.

Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter – nifer y swyddi System Dyletswydd Ar Alwad sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) – nifer yr unigolion sydd ar y System Dyletswydd Ar Alwad yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd



Nifer y Dyddiau Pan Gyflawnwyd yr Argaeledd oedd wedi'i Gynllunio	
100% o Bympiau Ar Gael: Wedi'i Fodloni	
Llun-Gwener	61
Penwythnos/Gŵyl y Banc	30


16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'n dibyniaeth fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd a elwir yn FaRDaP (Llwyfan Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i'r llwyfan newydd gael ei gyflwyno.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd iddynt a oedd yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mehefin 2025 ac mae'n cynnwys pob categori o ddigwyddiad.




D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

Ein Hegwyddor Amgylchedd


16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **254** o danau glaswelltir, coetir a chnydau yn ystod y chwarter, cynnydd o 316.4% o 61. Mae hyn 115.3% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 118.




17 Tanau gwyllt

Aethpwyd i **25** o danau gwyllt yn ystod y chwarter. Mae hyn yn gynnydd o 2400.0% ac mae 177.8% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o naw. O ganlyniad, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i dros **606 awr**, o'i gymharu â bron wyth awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.



18 Llifogydd

Aethpwyd i **bedwar** digwyddiad llifogydd, gostyngiad o 78.9% o 19, ac 11 digwyddiad yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 15.



Aethpwyd i **un** digwyddiad llifogydd i wneud y lleoliad yn ddiogel, aethpwyd i **un** i ddarparu cyngor yn unig, ac aethpwyd i **ddau** ddigwyddiad arall i bwmpio allan.

Geirfa

Tanau	Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde.
Prif Danau	Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr-agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati. Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i'w trin.
Tanau Eilaidd	Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau. Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd iddynt. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati.
Tanau Simdde	Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun. Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd iddynt.
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys: a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati; b) Trychinebau mawr; c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati; d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau.
Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)	Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli. Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani.

Galwadau Diangen – Maleisus	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.
Galwadau Diangen – Diffuant	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn.
Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig	Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio a pherson yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.
Adeilad – Anheddau	Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol.
Adeilad – Dibreswyl	Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai.
Adeilad – Preswyl Arall	Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr.
Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall)	Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch.
Awyr agored	Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post.
Tanau gwyllt	Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.
Salwch Tymor Byr (STS)	Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai.
Salwch Hirdymor (LTS)	Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy.

This document is available in English

Eitem Agenda 9

Adroddiad i	**Y Panel Gweithredol**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd**
Pwnc	**Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cael argymhelliad i gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2022-2025) statudol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028) cysylltiedig yn ffurfiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn newid yn sylfaenol. Mae Bil newydd yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd bresennol i "[g]ynnal a gwella" bioamrywiaeth gan greu amcan penodol i "atal a gwrthdroi" ei ddirywiad. Mae'r newid hwn yn dyrchafu bioamrywiaeth o fod yn ymarferiad cydymffurfio i fod yn ystyriaeth strategol graidd i'r Gwasanaeth.

3 Mae'r adolygiad o'r cyfnod 2022-2025 yn dangos cymhwysedd y Gwasanaeth wrth gwrdd â'r her hon. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys treialu tanwydd Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) cynaliadwy a dileu'n raddol y defnydd o ewynnau diffodd tân "cemegion am byth" hirbarhaus i ddiogelu ansawdd dŵr.

4 Mae Cynllun Gweithredu arfaethedig 2025-2028 yn newid sylweddol mewn uchelgais, gan symud o gydymffurfiaeth i arweinyddiaeth ragweithiol ym maes adfer natur. Mae mentrau blaenllaw yn cynnwys rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" i drosi o leiaf 15% o'r glaswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt, polisi cadarn i ddisodli coed 2-am-1, a mabwysiadu'r egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.

ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth drafft i'w gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a

ii) Chymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad a'r Cynllun ar wefan y Gwasanaeth nes iddo gael ei ystyried i'w gadarnhau gan yr Awdurdod.

CEFNDIR

6 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "[g]ynnal a gwella bioamrywiaeth" a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth". Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol yn dwysáu yn dilyn datganiad argyfwng natur y Senedd. Bydd y Bil Amgylchedd newydd (Mehefin 2025) yn creu amcan cyfreithiol i "atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth", gan godi'r safon ar gyfer cydymffurfio. Nod y cynllun hwn yw mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r safon uwch hon.

GWYBODAETH

7 Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy ymgorffori bioamrywiaeth yn ei Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol ar gyfer 2023-2030. Mae'r dull hwn wedi arwain at gyflawniadau nodedig:

- **Integreiddio Strategol:** Mae cyd-fanteision bioamrywiaeth bellach yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau datgarboneiddio craidd ar gyfer pŵer, gwres a'r fflyd, gan arddangos dull gweithredu aeddfed a chyfannol.
- **Atal Llygredd:** Mae'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau fflworoarwynebyddion sy'n hirbarhaus yn amgylcheddol wedi cychwyn, ac mae tanwydd HVO cynaliadwy, heb olew palmwydd, yn cael ei dreialu i osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo.
- **Gwella Cynefinoedd:** Mae cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr wedi'u creu mewn wyth gorsaf dân trwy gontract cynnal a chadw tiroedd diwygiedig, ac mae blychau nythu i wenoliaid duon wedi'u gosod mewn dwy orsaf mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- **Rheoli ar sail Tystiolaeth:** Mae Rhestr gynhwysfawr o Goed ar draws pob un o'r 47 safle wedi'i chwblhau, ochr yn ochr ag asesiad risg ar gyfer Clefyd Coed Ynn, gan alluogi datblygu cynllun rheoli rhagweithiol wedi'i dargedu.

8 Mae'r cynllun gweithredu newydd yn symud y tu hwnt i waith sylfaenol tuag at gyflawni adferiad natur uchelgeisiol, mesuradwy. Mae'r ymrwymiadau allweddol yn cynnwys:

- **Creu Cynefinoedd:** Bydd rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" yn trosi o leiaf 15% o laswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt neu'n dir ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028.
- **Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd:** Bydd cynllun rheoli Clefyd Coed Ynn yn cael ei weithredu, gan ddisodli pob coeden y ceir gwared â hi â dwy goeden frodorol newydd. Bydd egwyddor ffurfiol "Enillion Net Bioamrywiaeth" yn cael ei mabwysiadu ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd o fis Ebrill 2026, gan sicrhau bod datblygiadau'n gadael byd natur mewn cyflwr gwell.
- **Ymgorffori Diwylliant:** Bydd modiwl e-ddysgu amgylcheddol gorfodol ar gyfer uwch staff yn cael ei lansio, ochr yn ochr â rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r cynllun yn mynd ati mewn ffordd uniongyrchol i gefnogi nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth" drwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Mae'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys) a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cyllideb	Cost y gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig i ystâd y Gwasanaeth yw £10,000 dros dair blynedd. Bydd mabwysiadu Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei integreiddio mewn gwaith cynllunio a chostio prosiectau o'r cychwyn cyntaf, a bydd yn ddull effeithlon, ataliol o reoli effaith amgylcheddol yn hytrach na chost ôl-weithredol
Cyfreithiol	Rhaid cael cymeradwyaeth yn gyfreithiol er mwyn cyflawni dyletswydd statudol y Gwasanaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae agwedd ragweithiol y cynllun yn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer gofynion uwch y Bil Amgylchedd sydd i ddod, gan liniaru'r risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol a chraffu gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol newydd Cymru (OEGW).
Staffio	Dim
Cydraddoldebau / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Dim
Risgiau	• Peidio â chydymffurfio â'r gyfraith • Mae'r cynllun yn mynd ati'n weithredol i reoli risgiau ffisegol ac ariannol. Mae'r cynllun Clefyd Coed Ynn yn lliniaru'r risg iechyd a diogelwch o goed yn cwympo ar eiddo'r Gwasanaeth. Yn yr un modd, mae dileu'r defnydd o ewynnau "cemegion am byth" yn raddol yn atal halogiad tir yn y dyfodol, gan osgoi'r posibilrwydd o gostau a rhwymedigaethau adfer sylweddol.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

Medi 2025

Awdur(on):
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

This document is available in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol 3

1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth 3

1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi 3

1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig 4

2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025) 5

2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022 5

2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth 7

2.3. Ymgorffori Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth 8

2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth 9

3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028) 10

3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur 10

3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur 10

4. Llywodraethiant, Monitro, a'r Rhagolygon i'r Dyfodol 13

4.1. Mesur Ein Heffaith 13

4.2. Atebolrwydd ac Adrodd 14

4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy'n Gyfoethog o ran Natur 14

Tablau

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025 5

Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028 . 11

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol

1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth

1.1.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ("GTAGC", "y Gwasanaeth") wedi ymrwymo'n sylfaenol i ddiogelu cymunedau, treftadaeth, ac amgylchedd naturiol unigryw Gogledd Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan annatod o genhadaeth graidd y Gwasanaeth o "Wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Mae cysylltiad annatod rhwng iechyd a gwydnwch ein hecosystemau - o fynyddoedd Eryri i'n harfordiroedd a'n mannau gwyrdd trefol - a diogelwch a lles y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ecosystemau iach yn darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys aer a dŵr glân, lliniaru llifogydd, a chefnogaeth i fywoliaethau, sydd oll yn elfennau hanfodol o wydnwch cymunedol.

1.1.2. Y ddogfen hon yw Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2022-2025. Mae'n rhoi manylion tryloyw am y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi adroddiad 2022 ac yn gosod llwybr clir, uchelgeisiol, ac integredig ymlaen trwy gyfrwng Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2025-2028. Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth yn ymgorffori stiwardiaeth amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei weithrediadau, o reoli ystadau'n strategol i ymateb brys rheng flaen.

1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi

1.2.1. Mae gweithredoedd y Gwasanaeth yn cael eu llywio gan fframwaith deddfwriaethol cadarn ac esblygol yng Nghymru, sy'n rhoi cyfrifoldeb clir ar gyrff cyhoeddus i arwain ym maes diogelu'r amgylchedd.

1.2.2. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu'r prif ysgogwr statudol ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae Rhan 1, Adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth nid yn unig mewn rheoli tir uniongyrchol ond hefyd yn yr holl bolisïau, cynlluniau, rhaglenni, a gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.2.3. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer Cymru gynaliadwy. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod "Cymru Gydnerth": cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Ar ben hynny, mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn cael ei lywio gan bum ffordd o weithio'r Ddeddf: sicrhau persbectif tymor hir, canolbwyntio ar atal, integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion eraill, cydweithio â phartneriaid, a chynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

1.2.4. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol wedi parhau i aeddfedu ers 2022. Mae'r Senedd wedi datgan argyfwng natur, ac mae adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi dangos digon o flaenoriaeth wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau bioamrywiaeth.

1.2.5. Mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ym mis Mehefin 2025. Mae'r ddeddfwriaeth nodedig hon yn cryfhau'r fframwaith presennol yn sylweddol. Mae'n sefydlu corff goruchwylio annibynnol newydd, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW), i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

1.2.6. Yn holl bwysig, mae hefyd yn cyflwyno "amcan amgylcheddol" clir i Gymru, sy'n cynnwys "cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth". Mae'r newid hwn o ddyletswydd i "[g]ynnal a gwella" i gyfrifoldeb gweithredol i "atal a gwrthdroi" dirywiad yn codi'r safon ar gyfer cydymffurfiaeth a disgwyliadau'r cyhoedd. Felly, mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2025 wedi'i gynllunio nid yn unig i fodloni'r dyletswyddau presennol ond hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r agenda genedlaethol fwy uchelgeisiol hon sydd â rhagor o frys ynghlwm â hi.

1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig

1.3.1. Gan gydnabod bod heriau amgylcheddol yn rhyng-gysylltiedig, mae'r Gwasanaeth wedi symud y tu hwnt i drin bioamrywiaeth fel mater ar ei ben ei hun. Mae Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 yn darparu'r fframwaith cyffredinol sy'n integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws pob agwedd ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod effeithiau a chyfleoedd mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth yn ymwneud â'i swyddogaethau craidd: sut mae'n pweru ei adeiladau a'i gerbydau, ac yn rheoli ei adnoddau.

1.3.2. Mae'r Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn felly'n elfen ganolog o'r strategaeth ehangach hon, ac yn cael ei gefnogi gan gyfres o gynlluniau gweithredu pwrpasol sy'n brif fecanweithiau cyflawni ar gyfer cyd-fanteision bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer
- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd
- Cynllun Lleihau Gwastraff
- Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol

1.3.3. Trwy weithredu'r cynlluniau hyn, mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn lleihau ei ôl troed carbon ond hefyd yn mynd i'r afael â phwysau allweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori mewn penderfyniadau cyfalaf a gweithredol mawr, gan gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a darparu ymateb mwy effeithiol a chyfannol i'r argyfyngau hinsawdd a natur.



2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025)

2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022

2.1.1. Mae'r adran hon yn gofnod tryloyw o'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2025 i fodloni'r ymrwymiadau a nodwyd yn yr Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blaenorol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd ar bob cam gweithredu:

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025

Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	Camau Gweithredu o Gynllun 2022	Crynodeb o'r Cynnydd (2022-2025)	Canlyniad / Tystiolaeth
1. Ymgysylltu a Chefnogi	Datblygu polisi i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (SDAP).	Mae Strategaeth Amgylchedd-dol gynhwysfawr 2023-2030 a phum cynllun datgarboneiddio a lleihau gwastraff ategol wedi'u datblygu, bu ymgynghori arnynt, ac maent wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol.	Cyhoeddwyd Strategaeth Amgylcheddol a chynlluniau cysylltiedig.
2. Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd	Cynnal ardystiad BREEAM wrth ddatblygu adeiladau newydd neu waith adnewyddu mawr, lle bo'n ymarferol i wneud hynny.	Mae egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys diogelu nodweddion ecolegol, yn parhau i lywio pob gwaith cyfalaf.	Mae pob prosiect perthnasol yn cael ei asesu yn erbyn BREEAM neu safonau cynaliadwyedd cyfatebol.

3. Cynyddu Gwydnwch ac Adfer Cynefinoedd	Gweithredu'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth (dechreuodd ym mis Ebrill 2020).	Mae'r contract wedi bod yn gwbl weithredol, gan gyflwyno trefn o dorri'n llai aml mewn safleoedd dynodedig i hyrwyddo cynefinoedd peillwyr.	Cofnodion rheoli contractau; tystiolaeth ffotograffig o newidiadau i gynefinoedd mewn wyth gorsaf dân.
4. Mynd i'r Afael â'r Prif Bethau sy'n Rhoi Pwysau	Cynnal asesiad o'r risg y mae clefyd coed ynn yn ei achosi i goed ynn y Gwasanaeth erbyn diwedd 2023.	Cwblhawyd yr asesiad risg fel y cynlluniwyd. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu dadansoddi ac mae cynllun rheoli yn cael ei weithredu.	Adroddiad asesu risg mewnol a chynllun rheoli.
	Dod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir (C6 a C8) i ben.	Mae rhaglen ar gyfer rhoi'r gorau i'w defnyddio'n raddol a chael gwared o'r stoc presennol mewn modd ardystiedig ar y gweill, ac mae'r gwaith o gaffael dewisiadau amgen heb fflworin yn mynd rhagddo.	Cofnodion caffael a chynlluniau gwaredu.
	Parhau â gwaith parhaus yn ymwneud â Thanau Gwyllt ac Atal Tanau Bwriadol.	Mae'r arweinydd Tanau Gwyllt a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi parhau i weithio'n helaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, CNC, a'r Heddlu i leihau tanau gwyllt.	Cofnodion cyfarfodydd partneriaeth; deunyddiau ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd (e.e., Llantysilio).
5. Gwella Tystiolaeth	Cynnal a diweddaru Rhestr Bioamrywiaeth ystâd GTAGC.	Mae'r rhestr, gan gynnwys log ffotograffig o 2021, yn cael ei chynnal gan yr Adran Rheoli Cyfleusterau ac yn cael ei diweddaru wrth i brosiectau gael eu cwblhau.	Rhestr ddigidol a chofnodion ffotograffig.
	Cofnodi pob coeden mewn Rhestr o Goed (gwaith yn dal i fynd rhagddo).	Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl goed ar draws yr ystâd 47 safle wedi'i chwblhau, gan gofnodi rhywogaethau, lleoliad, a chyflwr.	Cronfa ddata'r Rhestr o Goed wedi'i chwblhau.

6. Llywodraethiant	Cyflwyno adroddiadau a baratowyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w cymeradwyo.	Bydd yr adroddiad hwn a'i gynllun gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w cymeradwyo'n ffurfiol cyn eu cyhoeddi.	Agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod.

2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth

2.2.1. Y tu hwnt i'r camau strategol, mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni sawl prosiect diriaethol ar lawr gwlad sy'n gwella bioamrywiaeth leol ac yn ymgysylltu â chymunedau:

2.2.2. **Cynnal a Chadw Tiroedd a Chreu Cynefinoedd:** Yn unol â'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth, lleihawyd y drefn torri glaswellt yn sylweddol mewn wyth gorsaf dân: Abergele, Y Waun, Conwy, Y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr. Trwy symud o doriadau bob pythefnos i doriad syml yn y gwanwyn a'r hydref, gadawyd i'r ardaloedd hyn dyfu trwy gydol y gwanwyn a'r haf, gan ddarparu cynefin hanfodol a ffynhonnell fwyd i beillwyr a phryfed eraill.



2.2.3. **Gwarchod Rhywogaethau:** Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, fe wnaethom osod clystyrau o flychau nythu i wenoliaid du yng ngorsafoedd tân Bae Colwyn a Llanfairfechan ym mis Rhagfyr 2023. Trwy gynnig lle wedi'i ddiogelu ar gyfer bridio, mae blychau nythu yn cyfrannu at gadwraeth gwenoliaid du, sy'n cadw'n driw i'w safleoedd nythu ac yn dychwelyd i'r un lleoliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gwenoliaid yn nythu mewn cytrefi, felly gall gosod sawl blwch nythu yn agos at ei gilydd annog ffurfio neu ehangu cytrefi, gan eu gwneud yn fwy gwydn.

2.2.4. **Ymgysylltu â'r Gymuned a Phartneriaethau:** Yn ogystal â gwaith partneriaeth parhaus drwy Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi mentrau cydweithredol Cymru gyfan, yn fwyaf arbennig Ymgyrch Dawns Glaw ac ymgyrch gysylltiedig #DoethIDanauGwyllt. Mae'r ymdrechion amlasiantaeth hyn, sy'n cynnwys partneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, heddluoedd, ac awdurdodau lleol, yn sicrhau dull cyson ac effeithlon o weithio, gan gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra i'r cyhoedd i atal tanau damweiniol a darparu arweiniad technegol i dirfeddianwyr ar reoli tir yn ddiogel.

2.3. Ymgorffori Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth

2.3.1. Cyflawnwyd cyfraniadau mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth i fioamrywiaeth yn y cyfnod adrodd hwn trwy integreiddio ystyriaethau amgylcheddol mewn newidiadau strategol a gweithredol ar raddfa fawr. Erbyn hyn, datgarboneiddio'r Gwasanaeth yw prif ysgogwr cyd-fanteision bioamrywiaeth cadarnhaol, gan arddangos dull aeddfed a chyfannol o reoli'r amgylchedd.

2.3.2. Nod Cynllun Datgarboneiddio Fflyd y Gwasanaeth yw mynd i'r afael ag un o'i ffynonellau mwyaf o ran allyriadau. Mae arbrawf llwyddiannus ag Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) wedi'i gwblhau, ac erbyn hyn mae treial yn cael ei gynnal mewn gorsafoedd, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n llawn. Yn holl bwysig, mae'r polisi caffael ar gyfer HVO yn nodi bod yn rhaid iddo ddeillio'n gyfan gwbl o fiomas gwastraff, a pheidio â chynnwys unrhyw olew palmwydd, er mwyn sicrhau nad yw'n creu unrhyw "ychwanegedd defnydd tir". Mae'r penderfyniad ymwybodol hwn yn atal galw'r Gwasanaeth am danwydd rhag cyfrannu at drosi cynefinoedd naturiol yn dir amaethyddol ar gyfer cnydau biodanwydd, sy'n un o brif ysgogwyr colli bioamrywiaeth yn fyd-eang.

2.3.3. Mae'r Cynllun Datgarboneiddio Pŵer yn blaenoriaethu gosod systemau Solar Ffotofoltäig (PV) ar doeau gorsafoedd tân ac adeiladau eraill. Nod y Gwasanaeth yw gosod paneli solar ar y mwyafrif o'i safleoedd. Trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ôl troed adeiledig presennol ei 47 eiddo, mae'r Gwasanaeth yn lleihau ei ddibyniaeth ar drydan o'r grid ac yn lliniaru'r pwysau i ddatblygu ffermydd solar ar raddfa fawr ar safleoedd tir glas, a thrwy hynny gadw tir ar gyfer natur ac amaethyddiaeth.

2.3.4. Mae'r Cynllun Lleihau Gwastraff yn gosod targed i ddileu'r defnydd o eitemau plastig untro fel cwpanau a chyllyll a ffyrc o bob safle erbyn 2025. Mae'r weithred hon yn ffordd uniongyrchol o leihau ffynhonnell allweddol o lygredd plastig a all niweidio ecosystemau daearol a dyfrol. Mae'r strategaeth ehangach o symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff—gan flaenoriaethu atal, ailddefnyddio, ac ailgylchu—yn lleihau cymaint â phosibl ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan leihau'r colli cynefinoedd cysylltiedig a'r llygredd o safleoedd tirlenwi.

2.3.5. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir i ben. Mae'r sylweddau hyn, a elwir yn aml yn "gemegau am byth", yn hirbarhaus yn yr amgylchedd a gallant fiogronni mewn bywyd gwyllt, gan achosi niwed ecolegol sylweddol. Mae dileu'r ewynnau hyn yn raddol a'u disodli â dewisiadau amgen heb fflworin yn gam ataliol hanfodol i ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau Gogledd Cymru.

2.3.6. Mae gwaith swyddog arweiniol Tanau Gwyllt penodedig y Gwasanaeth a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn un o'r prif swyddogaethau diogelu bioamrywiaeth. Trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â ffermwyr ar y Cod Llosgi Grug a Glaswellt a phartneriaethau aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chynnau tanau'n fwriadol, mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n uniongyrchol i amddiffyn miloedd o hectarau o gynefinoedd anhepgor rhag difrod trychinebus bob blwyddyn. Mae'r gwaith ataliol hwn yn un o'r cyfraniadau mwyaf effeithiol y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i ddiogelu gwydnwch ecosystemau ledled Gogledd Cymru.

2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth

2.4.1. Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu targedu ac yn effeithiol, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dau brosiect casglu tystiolaeth sylfaenol a amlinellir yng nghynllun 2022.

2.4.2. Rhestr o Goed: Mae rhestr gynhwysfawr o goed ar draws ystâd gyfan GTAGC bellach wedi'i chwblhau. Mae'r rhestr hon yn darparu llinell sylfaen fanwl o nifer, rhywogaeth, lleoliad, a chyflwr cyffredinol stoc coed y Gwasanaeth. Mae'r data hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu dull strategol o reoli coed, canfod cyfleoedd ar gyfer gwaith plannu newydd, a chyfrifo gwerth atafaelu carbon seilwaith gwyrdd yr ystâd.

2.4.3. Asesiad o Glefyd Coed Ynn: Fel y bwriadwyd, cwblhawyd asesiad risg o'r holl goed ynn ar yr ystâd erbyn diwedd 2023 i werthuso effaith clefyd coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*). Nododd yr asesiad goed sy'n peri risg bosibl i eiddo neu bobl ac mae wedi bod yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynllun rheoli penodol. Bydd y cynllun hwn yn arwain y gwaith o gael gwared ar goed peryglus mewn ffordd ddiogel ac, yn hanfodol, sicrhau eu bod yn cael eu disodli â rhywogaethau brodorol addas i gynnal gorchudd canopi a chysylltedd cynefinoedd.





3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028)

3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur

3.1.1. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi ymrwymiadau penodol, mesuradwy, ac amserol y Gwasanaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod blaenorol ac yn cyflymu'r gweithredu yn unol â brys cynyddol yr argyfwng natur. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan craidd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r uchelgais genedlaethol i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o dir a môr Cymru ar gyfer natur mewn ffordd effeithiol erbyn 2030 ("30x30"), gan ddangos sut y gall ystâd y Gwasanaeth gyfrannu at y nod cyfunol hwn.

3.1.2. Un o egwyddorion allweddol y cynllun hwn yw integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion amgylcheddol ehangach. Bydd llawer o'r camau gweithredu a amlinellir isod nid yn unig yn gwella cynefinoedd ac yn cefnogi rhywogaethau ond hefyd yn cyfrannu at nodau'r Gwasanaeth o ran datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd.

3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

3.2.1. Mae'r tabl canlynol yn manylu ar y camau penodol y bydd y Gwasanaeth yn eu cymryd rhwng 2025 a 2028 i gyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth a chyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028

Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	Gweithred	Disgrifiad / Rhesymeg	Dangosydd Perfformiad
1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad	Datblygu a chyflwyno modiwl e-ddysgu gorfodol ar ymwybyddiaeth amgylcheddol i staff uwch.	Ymgorffori dealltwriaeth sylfaenol o ddyletswydd Adran 6 a phwysigrwydd bioamrywiaeth ar draws y gweithlu cyfan, gan feithrin diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol.	75% o'r staff dynodedig yn cwblhau'r modiwl erbyn mis Mawrth 2027.
	Lansio rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.	Grymuso staff brwdfrydig i arwain ar fentrau lleol, hyrwyddo ymwybyddiaeth, a darparu adborth o'r gwaelod i fyny, gan feithrin mwy o gyfranogiad.	O leiaf un hyrwyddwr wedi'i benodi ym mhob un o'r tair ardal ddaearyddol (Gorllewin, Canol, Dwyrain).
2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd	Gweithredu'r Cynllun Rheoli Clefyd Coed Ynn	Mynd ati mewn ffordd ddiogel i reoli'r risgiau y mae coed sydd â'r clefyd yn eu hachosi, ac ar yr un pryd sicrhau cynnydd net mewn gorchudd canopi trwy raglen blannu strategol i ddisodli'r coed hyn â rhywogaethau amrywiol, brodorol.	Yr holl goed sy'n peri risg uchel wedi'u rheoli erbyn diwedd 2026; 100% o'r coed y cafwyd gwared arnynt wedi'u disodli ar sail 2-am-1 erbyn 2028.
	Ffurfioli'r polisi ar gyfer arolygon ecolegol mewn safleoedd sensitif.	Sicrhau bod unrhyw waith ger safleoedd dynodedig neu ardaloedd o werth ecolegol hysbys (e.e., y cynefin madfallod dŵr cribog ger Pencadlys Llanelwy) yn cael ei ragflaenu gan asesiad ecolegol priodol i atal niwed.	Polisi wedi'i integreiddio mewn gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer yr holl waith cyfalaf a chynnal a chadw erbyn Ebrill 2026.

3. Cynyddu gwydnwch ac adfer cynefinoedd	Lansio rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd".	Trosi cyfran sylweddol o laswelltir amwynder isel ei werth yn gynefinoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn atafaelu carbon, gan gyfrannu'n uniongyrchol at nodau'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a nodau datgarboneiddio.	O leiaf 15% o laswelltir a dorrir ar draws safleoedd addas wedi'i droi'n ddolydd blodau gwyllt neu wedi'i ddefnyddio ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028.
	Gosod nodweddion bioamrywiaeth newydd ar draws yr ystâd.	Darparu cymorth wedi'i dargedu i rywogaethau penodol trwy greu safleoedd nythu, clwydo, a gaeafgysgu ar draws ystod ddaearyddol eang o eiddo'r Gwasanaeth.	O leiaf 10 nodwedd newydd (ee, blychau adar, blychau ystlumod, gwestai pryfed, pentyrrau coed) wedi'u gosod erbyn mis Mawrth 2028.
4. Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau	Cwblhau'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir yn raddol.	Cael gwared ar ffynhonnell sylweddol o lygredd amgylcheddol parhaus o weithrediadau'r Gwasanaeth, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau.	100% o'r hen stoc ewyn wedi'i ddisodli a'i waredu trwy ffrydiau gwastraff ardystiedig erbyn mis Mawrth 2027.
	Gwella gwaith partneriaeth ar atal tanau gwyllt.	Parhau i amddiffyn cynefinoedd ar raddfa fawr rhag difrod tân trwy addysg wedi'i thargedu ac ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r cyhoedd.	Presenoldeb rheolaidd gan y Gwasanaeth yng Nghyfarfodydd Grŵp Risg Amgylcheddol Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru o fewn cyfnod yr adroddiad.
5. Gwella tystiolaeth	Cynnal arolwg ar draws yr ystâd ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS).	Adeiladu ar y rhaglen bresennol i reoli Clymog Japan drwy nodi a mapio INNS risg uchel eraill er mwyn creu sylfaen ar gyfer cynllun rheoli cynhwysfawr.	Arolwg wedi'i gwblhau a chynllun rheoli INNS wedi'i gynhyrchu erbyn mis Mawrth 2028.

6. Llywodraethiant a chefnogaeth	Mabwysiadu egwyddor "Enillion Net Bioamrywiaeth" (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.	Symud y tu hwnt i liniaru niwed i sicrhau bod pob datblygiad newydd mawr yn gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell yn fesuradwy nag o'r blaen, gan gyd-fynd â'r arfer gorau.	Gofyniad BNG wedi'i gynnwys yn yr holl ddogfennaeth dendro berthnasol ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cychwyn o fis Ebrill 2026 ymlaen.

4. Llywodraethiant, Monitro, a'r Rhagolygon i'r Dyfodol

4.1. Mesur Ein Heffaith



4.1.1. Er mwyn sicrhau bod Cynllun Gweithredu 2025-2028 yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i ddangos atebolrwydd, bydd y Gwasanaeth yn gweithredu fframwaith monitro cadarn. Bydd y fframwaith hwn yn olrhain cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y manylir yn eu cylch yn Nhabl 2, gan symud y pwyslais o gwblhau tasgau i fesur canlyniadau diriaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd y metrigau allweddol yn cynnwys:

- Hectarau o gynefin wedi'u hadfer neu eu creu drwy'r rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd".
- Nifer a math y nodweddion bioamrywiaeth newydd sydd wedi'u gosod.
- Canran y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol gorfodol.
- Nifer y prosiectau cyfalaf lle defnyddiwyd egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth.

4.1.2. Bydd y dull hwn sy'n cael ei arwain gan ddata yn caniatáu i'r Gwasanaeth asesu effeithiolrwydd ei ymyriadau, addasu ei strategaeth lle bo angen, a darparu tystiolaeth glir o'i gyfraniad at adfer natur yng Nghymru. Mae hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen, a nodwyd gan Archwilio Cymru, i gyrff cyhoeddus gael mesurau effeithiol i ddeall eu cynnydd tuag at amcanion amgylcheddol.

4.2. Atebolrwydd ac Adrodd

4.2.1. Bydd y strwythur llywodraethiant ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn yn sicrhau llinellau clir o ran cyfrifoldeb a goruchwyliaeth. Mae'r gwaith o gyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth o ddydd i ddydd yn cael ei weinyddu trwy Is-adran Cadwraeth Amgylcheddol ac Ynni yr Adran Rheoli Cyfleusterau, ar y cyd â Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd. Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol â chyfrifoldeb am bortffolio'r Amgylchedd sy'n atebol yn gyffredinol.

4.2.2. Bydd y Gwasanaeth yn cyhoeddi ei Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol nesaf cyn diwedd 2028, yn unol â'r cylch adrodd tair blynedd sy'n orfodol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy'n Gyfoethog o ran Natur

4.3.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod ei ddyletswydd i ddiogelu'r amgylchedd yn daith barhaus, yn hytrach na phrosiect tymor byr. Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu parhaus, uchelgeisiol, ac integredig gan bob sector o gymdeithas. Mae'r adroddiad a'r cynllun gweithredu hwn yn gam sylweddol ymlaen yn ymrwymiad y Gwasanaeth, gan ymgorffori bioamrywiaeth wrth graidd ei waith cynllunio strategol a'i weithrediadau dyddiol.